Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## 2020-21

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda..

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

# Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar berfformiad** | **04** |
| Rhagair | 05 |
| Fy Rôl fel Comisiynydd | 06 |
| Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd | 08 |
| Strategaeth y Comisiynydd 2019-22 | 09 |
| Cipolwg ar y flwyddyn 2020-21 | 10 |
| Ystadegau 2020-21 | 12 |
| Adroddiad Blynyddol | 13 |
| Adolygiad o Falans y Cronfeydd wrth Gefn 2020-21 | 43 |
| Dadansoddiad o'r taliadau | 45 |
| Adroddiad ar Gynaliadwyedd | 46 |
| **Adroddiad Atebolrwydd** | **48** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 49 |
| Adrodd Corfforaethol | 51 |
| Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 54 |
| Datganiad Llywodraethu | 55 |
| Adroddiad ar staff a thaliadau | 62 |
| Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd | 73 |
| **Datganiadau Ariannol** | **77** |
| Datganiadau Ariannol | 78 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 82 |



# Adroddiad ar berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi sylw i'r ystyriaethau allweddol a'r risgiau rwyf wedi'u hwynebu yn ystod 2021-21.

## Rhagair



Mewn blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, hoffwn ddechrau trwy dalu teyrnged i wytnwch pobl hŷn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydw i wedi treulio amser gyda phobl hŷn, yn bennaf dros Zoom, yn gwrando ar eu profiadau a'u straeon am ymdopi yn ystod y cyfnod clo, sut maen nhw wedi parhau i helpu eraill, a'u gweledigaeth ar yr hyn sydd angen ei wneud wrth i ni barhau i fynd drwy'r pandemig erchyll hwn. Rhannodd Margaret ei phrofiad hi â ni ac mae ei stori hi ar gyfer fy adroddiad a gweminar Gadael Neb ar Ôl, yn crynhoi'r holl emosiynau a'r heriau i'r dim.

Mae Margaret yn gofalu am ei gŵr sydd â dementia a disgrifiodd sut y 'Torrodd y tir o dan ein traed dros nos, gan dynnu'r rhwydwaith diogel o gefnogaeth yr oeddwn wedi ei ddwyn ynghyd i'n cadw'n ddiogel yn ein cartref'. Wrth rannu'r mynych heriau sy'n wynebu hi a'i gŵr, disgrifiodd hefyd sut y 'Digwyddodd pethau da hefyd yn groes i'r disgwyl'.

Mae'r profiad hwn o drafferthion dyddiol, o boeni am y dyfodol yn un a fydd yn teimlo'n gyfarwydd i bob un ohonom. Ond rwy'n credu bod llawer ohonom hefyd wedi bod yn ffodus i weld a phrofi pethau da yn groes i'r disgwyl. I mi, mae'r pethau da yn cynnwys y ffordd yr estynnodd pobl eu dwylo i helpu ei gilydd, a'r holl bobl newydd a sefydliadau rydw i wedi'u cyfarfod a bellach yn gweithio gyda nhw.

Felly, yn yr adroddiad blynyddol hwn byddwch yn gweld esiamplau o rai o'r partneriaethau hyn, yn cynnwys dros 30 o sefydliadau a phobl hŷn yn cydweithio i roi diwedd ar gam-drin pobl hŷn; datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran; gweithio gydag awdurdodau lleol gyda chefnogaeth Grŵp Llywio a dysgu trwy Gymuned Ymarfer; sut rydym wedi cysylltu â sefydliadau pobl hŷn ac eraill ledled y DU i fanteisio cymaint ag y gellir o'u profiad a'u dysgu i'n cynorthwyo i ddiogelu hawliau pobl hŷn ac eiriol dros bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Ar gyfer rhai pobl hŷn, bu baich y flwyddyn ddiwethaf bron yn ormod iddynt; o ran colled a phrofedigaethau, ac mae effeithiau iechyd meddwl y pandemig yn sylweddol.  Nid ydym yn gwybod hyd a lled hyn eto, nac ychwaith yr hyn mewn gwirionedd y mae'r bobl hŷn wedi bod drwyddo. O edrych ymlaen felly, un o'm blaenoriaethau yw gweithio gydag eraill ar helpu pobl hŷn i adennill eu hiechyd corfforol a meddyliol ac, wrth weithio ein ffordd drwy'r pandemig, sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

Hoffwn ddiolch o galon i bobl hŷn, a phawb fûm yn cydweithio â nhw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am eu cyngor doeth, ac yn arbennig i'm tîm am eu tosturi a'u hymrwymiad i bobl hŷn, am eu gofal a'u cydymdeimlad, ac am yr holl gefnogaeth.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

# Fy Rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl hŷn 60 oed a throsodd ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau.

Rwy'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy nhîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.

# Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

## Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny

Rwy'n defnyddio fy statws fel Comisiynydd i helpu i osod yr agenda ymhlith y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, ac yn hybu trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Un o'm prif rolau yw bod yn hyrwyddwr pwerus dros bobl hŷn gan ymyrryd neu chwarae rôl arweiniol mewn ystod eang a chynyddol o drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau ledled Cymru.

## Hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn

Rwy'n argymell newidiadau i'r gyfraith, i ganllawiau ac i arferion er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Rwy'n cyflwyno delweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn o bob math.

Unigolion yw pobl hŷn ac, er y gallent rannu rhai pryderon cyffredin, nid yw eu statws unigol ddim llai. Ni ddylid mabwysiadau un agwedd gyffredinol at bobl hŷn, ac rwy'n ceisio adlewyrchu hyn yn fy ngwaith.

Rwy'n hybu dealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei agweddau amlwg a'i agweddau cudd, sydd yr un mor niweidiol. Yn ei barn hi, mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn allweddol ar gyfer gwneud cynnydd ar draws bob maes polisi ac nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

## Annog ymarfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru

Fy mwriad yw cyflawni hyn drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, pan fo angen, cyflawni gwaith ymchwil i gyflwyno esiampl o ymarfer effeithiol.

Yn bwysicach fyth, rwy'n mynnu y dylai gwasanaethau o safon uchel fod ar gael yn eang ac yn gyson i bobl hŷn. Rwy'n hybu newidiadau i ymarfer sefydledig pan fydd y dystiolaeth yn dangos bod ymarfer gwahanol yn gweithio'n well. Rwy'n annog darparwyr gwasanaethau i wynebu her newid er mwyn gellir diwallu anghenion pobl hŷn yn well.

## Pharhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Rwy'n llunio'r achos dros newid ac yn cyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rwy'n sefydlu beth yw'r problemau a'r cyfleoedd o ran cyfuno arbenigedd cyfreithiol, arbenigedd arall a phrofiad a safbwyntiau pobl hŷn.

Mae fy rôl yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau unigryw i'm cefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif lle bo angen.

**Rwy'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy nhîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.**

# Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd

Rwyf eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo.

Mae hyn yn golygu dathlu'r ffaith ein bod ni'n gymdeithas sy'n mynd yn hŷn, a sicrhau bod pob un ohonom yn gallu mwynhau'r cyfleoedd sy'n deillio o hynny. Mae'n golygu bod yn barod i fynd i'r afael â'r heriau y gallem eu hwynebu wrth i ni fynd yn hŷn, a sicrhau bod pobl hŷn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'n golygu croesawu a hybu arloesedd ac arferion da er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu, gan ddal pobl yn atebol pan fo angen.

Mae hefyd yn golygu grymuso pobl hŷn drwy sicrhau eu bod nhw'n deall eu hawliau cyfreithiol, a sut y gallent ddefnyddio'r hawliau hynny i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac i herio arferion, gwasanaethau ac agweddau drwg at bobl hŷn.

## Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Fe wnes i gydweithio â chydweithwyr ar ddyluniad ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol.  Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain diwylliant ein sefydliad ac yn sail i'n hamcanion perfformiad personol. Mae'r gwerthoedd yn rhoi arf i ni y byddwn yn ei ddefnyddio i ddwyn ein hunain i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn.



### Un Tîm

Rhoi nodau a rennir o flaen agendâu unigol

Cynnig cymorth i bobl eraill mewn modd rhagweithiol



### Parchus

Mynd ati'n weithredol i ofyn am farn pobl eraill

Gwerthfawrogi gwahanol syniadau a safbwyntiau



### Cynhwysol a Chyfeillgar

Talu sylw i'n llesiant ein gilydd

Bod yn garedig, yn groesawgar ac yn gefnogol gyda phawb

Ystyried yr hyn rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, ac effaith hynny ar bobl eraill



### Agored

Herio mewn modd adeiladol a bod yn barod am her

Dysgu gan bobl eraill

Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser



### Uchelgeisiol

Bod yn frwd dros ein gweledigaeth

Anelu at ragoriaeth

Bod yn flaengar ac yn barod i gymryd risgiau rhesymol i gael effaith



### Gonestrwydd

Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith

Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud ein bod ni am ei wneud



# Strategaeth y Comisiynydd 2019-22

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddais fy strategaeth dair blynedd - Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i Heneiddio - sy'n nodi fy mlaenoriaethau, y canlyniadau yr wyf am eu gweld ar gyfer pobl hŷn, a'r camau y byddaf yn eu cymryd fel Comisiynydd i helpu i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio.

Datblygwyd fy strategaeth yn dilyn rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr ledled Cymru - gan ymweld ag 82 grŵp, ac ymgysylltu â thros 3,000 o bobl – er mwyn clywed am eu profiadau cadarnhaol a negyddol o fynd yn hŷn, ac am y newidiadau yr hoffant eu gweld yn digwydd er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn.

Ochr yn ochr â hyn, bu fy nhîm a minnau hefyd yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ag amryw o sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal ag adolygu a chydnabod bylchau mewn tystiolaeth a pholisi cyfredol, a defnyddio blynyddoedd o wybodaeth, profiad ac ymchwil.

Roedd y gwaith ymgysylltu a'r ymgynghori hwn yn cefnogi datblygiad fy strategaeth tair blynedd – Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio – sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol:

- Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed
- Rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Ochr yn ochr â chyflawni ystod eang o waith yn erbyn y blaenoriaethau hyn, a nodir isod, mae fy nhîm a minnau'n gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ar lefel genedlaethol a lleol, yn ogystal â chraffu ar gyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol lle bo angen.

# Cipolwg ar y flwyddyn 2020-21




## Ebrill 2020

Galw ar hawliau pobl hŷn i gael eu diogelu yn dilyn pryderon yn ymwneud â hysbysiadau Peidiwch Ymgeisio Adfywio cardio-pwlmonaidd, a gwneud penderfyniadau triniaeth cyffredinol.


Sefydlu Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin i sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i'w gwarchod a'u cadw'n ddiogel.



## Mai

Tynnu sylw at bryderon effaith y pandemig ar hawliau pobl hŷn a galw ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i archwilio os yw eu hawliau wedi cael eu diogelu'n ddigonol.

Cychwyn sesiynau ymgysylltu rhithwir gyda phobl hŷn ledled Cymru i glywed am eu profiadau nhw o'r pandemig a pha gefnogaeth a newidiadau sydd eu hangen.




## Mehefin

Gwahodd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, eu teuluoedd a'u ffrindiau a staff i rannu eu profiadau a chyhoeddi Lleisiau Cartrefi Gofal.

Dosbarthu pecyn gwybodaeth Covid-19 sy'n rhoi gwybodaeth ar sut i gadw pobl hŷn yn ddiogel rhag camdriniaeth a throseddu.



## Gorffenaf

Dechrau gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yng Nghymru i gynnal archwiliad i weld os yw hawliau pobl hŷn wedi cael eu diogelu'n ddigonol yn ystod y pandemig, gan ofyn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.

Galw ar Lywodraeth Cymru i ddiddymu mesurau yn y Ddeddf Coronafeirws sy'n peryglu hawliau pobl hŷn.




## Awst

Cyhoeddi 'Gadael Neb ar Ôl' sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu gadael ar ôl wrth i Gymru ddechrau ei hadferiad.

Croesawu'r adroddiad 'Amlygu'r Materion', sy'n cyfeirio at ei thystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd am effaith y pandemig ar bob hŷn.



## Medi

Cyhoeddi papur sefyllfa ar ymweliadau â chartrefi gofal a galw am weithredu o'r newydd i alluogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal yng Nghymru.

Cynllunio ymchwil mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn yng Nghymru sy'n cael eu cam-drin.




## Hydref

Cynnal gweminar a fynychwyd gan dros 350 o gynrychiolwyr i archwilio dulliau effeithiol o ddatblygu'r galwadau i weithredu, fel y nodir yn ei hadroddiad 'Gadael Neb ar Ôl'.


Gweithio gydag Aelod o'r Senedd i gefnogi sefydlu Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Bontio'r Cenedlaethau.



## Tachwedd

Croesawu ymgynghoriad ar strategaeth trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu'r materion a'r pryderon a godwyd ganddi hi a'r materion a rennir gan bobl hŷn yn ei gwaith ar drafnidiaeth i wasanaethau iechyd

Cynnal digwyddiad ar-lein i drafod sut i wella anghenion llety a chefnogaeth pobl hŷn sydd angen gadael perthynas gamdriniol.




## Rhagfyr

Annog pobl hŷn i ymuno â hi i ymateb i Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar effaith y pandemig ar bobl hŷn.



## Ionawr

Croesawu'r cyhoeddiad i ddiddymu'r uchafswm oed o 74 ar gyfer data arolwg troseddu, yn dilyn ei galwadau i wneud hynny.

Sefydlu Grŵp Llywio Oed-gyfeillgar i helpu i arwain ei gwaith gydag awdurdodau lleol i'w cefnogi i ddod yn gymunedau oed-gyfeillgar ac aelodau o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd.




## Chwefror

Cyfarfod â Gweinidog o'r Swyddfa Gartref i drafod y Bil Trais Domestig a'r newidiadau sydd eu hangen i helpu pobl hŷn.

Cynnal sesiynau hyfforddi i rymuso pobl hŷn i adnabod ac i herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.



## Mawrth 2021


Croesawu data newydd sy'n datgelu cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi dechrau hawlio Credyd Pensiwn yn ystod ei hymgyrch i gynyddu'r niferoedd sy'n ei hawlio.

Croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i'w galwadau i weithredu i fynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn yn ystod tymor nesaf y Senedd.

# Ystadegau 2020-21


| | |
|---|---|
| **567** | Nifer y bobl hŷn sy'n cael eu cefnogi gan Dîm Gwaith Achos y Comisiynydd. Cyfanswm yr achosion ar gyfer 2020-21 oedd 643 - cynnydd o 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |
| **43** | Nifer y sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn. 584 o bobl wedi cymryd rhan i gyd |
| **255,886** | Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gyda negeseuon o Dudalen Facebook y Comisiynydd |
| **336** | Aelodau o grŵp Facebook 'Together We Are Stronger' y Comisiynydd, a sefydlwyd i rannu gwybodaeth gymunedol am y pandemig |
| **1,171,300** | Nifer yr argraffiadau Twitter yn ystod 2020-21 |
| **188** | Nifer yr eitemau newyddion yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd |
| **2.5bn** | Eitemau newyddion 'Cyfleoedd i weld' yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd ar draws ystod eang o gyhoeddiadau |
| **£19.2m** | Gwerth hysbysebu sy'n cyfateb i ddarllediadau newyddion y Comisiynydd |





# Cyflawni yn erbyn fy mlaenoriaethau

Roedd pandemig Covid-19 yn golygu bod ffocws fy ngwaith wedi newid yn sylweddol, a bod yn rhaid i gynlluniau yn ymwneud â nifer o ddarnau allweddol o waith a oedd i'w cyflawni yn 2020-21 newid.




Er gwaethaf hyn, fel y gwelwch o'r adroddiad hwn, roedd fy ngwaith yn ystod 2020-21 yn dal i ganolbwyntio'n gryf ar y blaenoriaethau a nodwyd yn fy Strategaeth yn 2019: rhoi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r materion a welsom yng nghyswllt hawliau pobl hŷn, er enghraifft, yn adlewyrchu cymdeithas lle mae oedraniaeth dal yn gyffredin, ac mae fy ngwaith yn ystod 2020-21 i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, ynghyd â'm galwadau am weithredu a newid ar draws ystod o faterion, wedi bod yn hanfodol i helpu i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn oherwydd eu hoedran.

Yn yr un modd, drwy fy ngwaith i ddylanwadu ar gamau gweithredu, penderfyniadau a phrosesau cynllunio Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, rwyf wedi ceisio sicrhau bod y polisi a'r arfer cywir ar waith i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cymryd rhan yn eu cymunedau a chael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – sy'n hanfodol er mwyn galluogi pobl i heneiddio'n dda.

Er gwaethaf yr heriau a gyflwynodd y pandemig, mae ymgysylltu â phobl hŷn hefyd wedi parhau yn flaenoriaeth, ac rwyf wedi cynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn ledled Cymru a sicrhau bod fy ngwaith wedi parhau i gael ei lywio gan eu lleisiau a'u profiadau a'r materion sydd bwysicaf iddynt.

**Roedd pandemig Covid-19 yn golygu bod ffocws fy ngwaith wedi newid yn sylweddol, a bod yn rhaid i gynlluniau yn ymwneud â nifer o ddarnau allweddol o waith a oedd i'w cyflawni yn 2020-21 newid.**



# Diogelu hawliau pobl hŷn

**Rhan allweddol o'm rôl yw sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig drwy gydol y pandemig.**

**Rwyf wedi craffu'n fanwl ar y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan, a chyrff cyhoeddus eraill, gan herio'n gadarn y penderfyniadau a fyddai'n peryglu hawliau pobl hŷn, a galw am weithredu i sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu cynnal.**

## Hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol

Codais bryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio Hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR), ar ôl i mi gael gwybod bod rhai cleifion agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys pobl hŷn, wedi teimlo dan bwysau i lenwi ffurflen DNACPR yn dilyn llythyr gan eu meddygfa ym mis Mawrth 2020 a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiwerth ac nad oedd eu bywydau'n bwysig.

Dywedais fod y llythyr yn gywilyddus ac yn annerbyniol, ac yr oeddwn yn pryderu y gallai gohebiaeth debyg fod wedi'i dosbarthu mewn ardaloedd eraill, neu fod penderfyniadau cyffredinol, gwahaniaethol yn cael eu gwneud ynglŷn â'r dewisiadau o ran triniaeth a fyddai ar gael i bobl hŷn. Cysylltodd pobl hŷn, aelodau o'u teuluoedd ac Aelodau'r Senedd â mi hefyd mewn rhannau eraill o Gymru a oedd yn rhannu pryderon tebyg.

Cefais gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lle gofynnais am arweiniad a chyngor cryfach gan fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru, i sicrhau y byddai hawliau sylfaenol pobl hŷn yn cael eu cynnal ac y byddai penderfyniadau sy'n ymwneud â DNACPR a dewisiadau eraill o ran triniaeth yn cael eu gwneud fesul achos.

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru ar y cyd at Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr GIG Cymru i'w hatgoffa o'u dyletswyddau yng nghyswllt DNACPR ac ymgynghori â chleifion, gan nodi'r pryderon yr oeddwn wedi'u codi

Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd Grŵp Cynghori Covid-19 Canllawiau Moesol a Moesegol i Gymru, sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o arbenigwyr i roi cyngor ac arweiniad ar ystyriaethau moesol, moesegol, diwylliannol-benodol a ffydd, yn ogystal ag unrhyw gyfyng-gyngor moesol a moesegol sy'n dod i'r amlwg yng nghyswllt Covid-19.

## Gwaith partneriaeth gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Oherwydd pryderon sylweddol a rennir am brofiadau pobl hŷn yn ystod pandemig Covid-19, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal, galwais am ymchwiliad a gweithiais mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i archwilio a oedd achosion posibl o dorri hawliau dynol pobl hŷn wedi digwydd ac i asesu a oedd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol mewn ymateb i'r pandemig.

Er mwyn deall prosesau gwneud penderfyniadau, ac a oedd y dulliau a gymerwyd yn bodloni cyfrifoldebau'n ymwneud â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol ai peidio, gofynnwyd ar y cyd am dystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol yn ymwneud â sawl maes allweddol: profion ar gyfer preswylwyr a staff cartrefi gofal, mynediad at gyfarpar diogelu personol, ac ymweliadau â chartrefi gofal.

Er y darparwyd rhywfaint o wybodaeth am y ffordd y penderfynwyd ar bolisïau allweddol, y craffwyd arni gennyf fi a'm tîm a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, yr oedd bylchau yn y dystiolaeth ac ni roddwyd sylw i nifer o'r pwyntiau a godwyd gyda'r Gweinidog.

Gofynnwyd felly i'r Gweinidog ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddangos y ffyrdd yr oedd effaith penderfyniadau allweddol wedi'i hystyried a'i hasesu.

Ac ystyried gwahanol rolau a phwerau fy swyddfa a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion, cytunwyd y byddai'r dystiolaeth ychwanegol hon yn cael ei hadolygu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er mwyn penderfynu ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd os nodir methiannau sydd wedi arwain at beidio â diogelu hawliau pobl hŷn yn ddigonol. Gallai hyn gynnwys math o gamau gorfodi, a fyddai'n cael eu datblygu gan ddefnyddio pwerau statudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Felly dechreuais weithio i archwilio'r gwersi yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o'i hymateb i gamau cynnar y pandemig, a'r ffyrdd y mae'r rhain wedi'u cymhwyso i gryfhau'r broses o ddiogelu a hybu hawliau pobl hŷn.

Nodais nifer o newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn fy ymyriad â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a'r pryderon a godwyd, gan gynnwys gwelliannau'n ymwneud â defnyddio asesiadau effaith a chreu gweithgor newydd i wella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff, a rhannu arfer da. Ar ben hynny, dywedodd Llywodraeth Cymru y bu mwy o ymgysylltu â phobl hŷn a phreswylwyr cartrefi gofal, er mwyn eu cynnwys fwy yn y broses o wneud penderfyniadau.

## Herio deddfwriaeth sy'n peryglu hawliau pobl hŷn

Rhoddodd Deddf y Coronafeirws, a basiwyd ym mis Mawrth 2020 fel ymateb uniongyrchol i'r pandemig, y pŵer i awdurdodau lleol gyfyngu ar hawliau pobl i asesu eu hanghenion a chael gafael ar y cymorth gofal cymdeithasol sydd ei angen arnynt.

Er na wnaeth yr un awdurdod lleol ddeddfu'r mesurau hyn yn ffurfiol, yr oeddwn yn pryderu bod hawliau pobl hŷn yn parhau mewn perygl tra'u bod ar waith.

Galwais felly am ddiddymu'r adrannau hyn o Ddeddf y Coronafeirws cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y byddai hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal, ac anogais bobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru i ymuno â'm galwadau a lleisio eu barn.

Ail-edrychais ar fy ngalwadau pan roddais dystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru i Covid-19 a'i effaith, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau y gallai pobl hŷn ledled Cymru gael gafael ar y gwasanaethau y mae ganddynt hawl eu cael. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor, Into Sharp Relief, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020, y dylai Llywodraeth Cymru 'ddileu'r mesurau yn Neddf y Coronafeirws 2020 ar unwaith sy'n llacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl', gan ddyfynnu fy nhystiolaeth a'm gwaith i ddiogelu hawliau pobl hŷn.

Croesawais y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y byddai'r darpariaethau yn y Ddeddf a roddodd y pŵer i awdurdodau lleol gyfyngu ar hawliau pobl hŷn yn cael eu hatal yn dilyn ymgynghoriad.

## Grymuso pobl hŷn i ganfod a herio gwahaniaethu ar sail oedran

Gan nad oedd darparu sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod 2020-21 oherwydd y pandemig, datblygais gwrs hyfforddi ar-lein fel y gallwn barhau â'm gwaith i rymuso pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.

Mae'r cwrs hyfforddi wedi'i lunio i helpu cyfranogwyr i ganfod oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran mewn amrywiaeth o leoliadau - er enghraifft yn y gweithle, iechyd, gofal a gwasanaethau eraill, ac yn y cyfryngau - yn ogystal ag edrych ar y ffyrdd i allu herio oedraniaeth. Mae hefyd yn ymdrin â'r ddeddfwriaeth y gellir ei defnyddio i herio oedraniaeth a'r sefydliadau a all ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth os bydd rhywun yn gweld neu'n profi oedraniaeth.

Cymerodd 25 o bobl hŷn o bob rhan o Gymru ran yn y sesiynau hyn, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Dywedodd cyfranogwyr eu bod yn gwerthfawrogi'n arbennig y drafodaeth a'r ddadl yn y sesiynau, a oedd yn eu helpu i ddeall y gwahanol ffyrdd y gallai oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran ddigwydd a'r effaith y gall y rhain ei chael pan fyddant yn digwydd. O ganlyniad i'r adborth cadarnhaol hwn, bwriedir cynnal sesiynau tebyg pellach ar gyfer 2021-22.

**Galwais am ddiddymu rhannau o Ddeddf y Coronafeirws cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y byddai hawliau pobl hyn yn cael eu cynnal**

# Diogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal

**Mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal – rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn aml – wedi bod mewn perygl sylweddol o Covid-19, ac yn anffodus mae cannoedd wedi marw. Mae llawer mwy wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd a'u lles meddyliol a chorfforol, neu mewn galar ar ôl colli eu ffrindiau a'u cyfoedion.**

**Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweld ymroddiad a thosturi staff gofal ledled Cymru sydd wedi mynd yr ail filltir a thu hwnt i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi, o dan yr amgylchiadau anoddaf.**

**Felly, rwyf wedi canolbwyntio'n sylweddol ar ddiogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan sicrhau bod eu lleisiau wedi'u clywed, bod cartrefi gofal yn gallu cael gafael ar yr adnoddau a'r cymorth oedd eu hangen arnynt i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac yn iach, ac nad yw pobl hŷn yn cael eu gadael ar ôl wrth i gyfyngiadau gael eu llacio a'u codi mewn rhannau eraill o gymdeithas.**

## Ymateb i gamau cynnar y pandemig

Yn ystod camau cynnar y pandemig, cododd pobl hŷn a'u teuluoedd bryderon sylweddol gyda mi am faterion a'r heriau oedd yn wynebu cartrefi gofal yng Nghymru, a'r risgiau posibl i breswylwyr a staff.

Mewn ymateb, galwais am amrywiaeth o gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys:

- Sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol hanfodol (a deunyddiau rheoli heintiau eraill) yn cael eu cyflenwi a'u darparu'n ddigonol ac yn gyson i gartrefi gofal.
- Sicrhau bod profion ar gael i breswylwyr a staff.
- Sicrhau y gallai preswylwyr gael gafael ar driniaeth a gwasanaethau'r GIG y gallai fod eu hangen arnynt (gan gynnwys ar gyfer Covid-19.)
- Darparu cymorth ac arweiniad i gartrefi gofal, gan gynnwys adnoddau hyfforddi ar gyfer staff gofal.
- Darparu cyllid brys i gartrefi gofal oherwydd costau uwch.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth am lefelau heintiau a marwolaethau er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â dyrannu polisïau ac adnoddau.

Er y gwnaethpwyd cynnydd mewn llawer o'r meysydd uchod, roedd polisi profi Llywodraeth Cymru yn eithrio preswylwyr a staff cartrefi gofal i ddechrau, rhywbeth a oedd yn peri pryder mawr i mi, yn enwedig ac ystyried y dystiolaeth gynyddol o'r risg bosibl o drosglwyddo Covid-19 yn asymptomatig, a'r nifer cynyddol o achosion o Covid mewn cartrefi gofal.

Fe wnes i barhau i godi'r mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a nodi y dylai profion fod ar gael i gartrefi gofal, a arweiniodd at sawl newid i'r polisi profi, yn fwyaf nodedig ym mis Mai, pan gyhoeddwyd y byddai profion Covid ar gael i bobl hŷn a staff gofal ym mhob cartref gofal yng Nghymru.

## Adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal

Wrth i'r sefyllfa drychinebus yn ein cartrefi gofal ddatblygu, roeddwn yn poeni nad oedd lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu clywed yn ddigon da, oedd yn golygu bod gwybodaeth ac arbenigedd hanfodol yn aml ar goll pan oedd polisïau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud.

Gofynnais i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a staff gofal rannu eu profiadau o'r pandemig a'r cyfyngiadau symud, yn ogystal â'u barn am y camau sydd eu hangen i ddiogelu a chefnogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal. Ar ben hynny, roeddwn hefyd eisiau i bobl rannu enghreifftiau o weithgareddau ac ymarfer da a oedd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl hŷn.

Ymatebodd dros 120 o bobl i rannu eu profiadau a gwybodaeth hanfodol, drwy holiadur ar-lein, a dros y ffôn, drwy lythyr a drwy e-bost. Trefnais sesiynau ymgysylltu hefyd gyda phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn y gogledd a'r de er mwyn gallu siarad â nhw'n uniongyrchol am eu profiadau'n fanylach.

Roedd yr wybodaeth a rannwyd yn sail i'm hadroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Roedd yr adroddiad yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd allweddol yn ymwneud â'r ymateb i'r pandemig a'r effaith ar bobl hŷn, gan gynnwys profion, gwybodaeth ac arweiniad, ymweliadau gan anwyliaid, yr effaith ar fywyd o ddydd i ddydd a'r effaith ar iechyd a lles. Cafodd dyfyniadau uniongyrchol gan bobl hŷn, aelodau o'r teulu a rheolwyr cartrefi gofal a staff yn sôn am eu profiadau eu cynnwys drwy gydol yr adroddiad.

Er bod rhai ymatebion cadarnhaol, yn enwedig enghreifftiau o ofal rhagorol yn cael ei ddarparu gan staff gofal, dysgais fod cartrefi gofal wedi wynebu ystod eang o faterion a heriau, a achosodd bryder, straen a gorbryder sylweddol. Ar ben hynny, roedd diffyg cysylltiad sylweddol yn aml rhwng yr hyn a oedd yn cael ei addo ar lefel polisi a'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad, a arweiniodd at oedi annerbyniol mewn rhai cartrefi gofal yn cael gafael ar gyfarpar diogelu personol hanfodol a phrofion / canlyniadau profion.

Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd yn teimlo na fu digon o ffocws ar ddiogelu a chefnogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, ac mai dealltwriaeth gyfyngedig yn aml oedd ymhlith cyrff cyhoeddus ynglŷn â'r polisïau a'r gefnogaeth oedd eu hangen ar gartrefi gofal i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac yn iach.

Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn dangos y gellid bod wedi osgoi llawer o'r materion a'r heriau a amlygwyd, drwy gynllunio ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chartrefi gofal yn gynharach, a darparu gwybodaeth ac arweiniad clir ac ymarferol.

Galwais am ddefnyddio'r profiadau yn yr adroddiad i lywio'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn well, ac i leisiau pobl hŷn, eu hanwyliaid a gweithwyr cartrefi gofal fod yn ganolog wrth lunio polisi. Yn ogystal â hynny, galwais am weithredu a gwelliannau ar unwaith ar draws ystod o feysydd allweddol:

- Ymgysylltu ystyrlon â phreswylwyr cartrefi gofal, teuluoedd, ffrindiau a gweithwyr cartrefi gofal
- Galluogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal
- Galluogi ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys arolygiadau cartrefi gofal
- Sicrhau y gallai cartrefi gofal gael gafael ar gymorth ariannol

Fe wnes i hefyd ailadrodd fy ngalwad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun

gweithredu penodol ar gyfer cartrefi gofal, i ddarparu manylion am y camau a fyddai'n cael eu cymryd, a phryd y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

## Cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal

Oherwydd effaith y pandemig ar bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, galwais ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu cartrefi gofal i nodi'n glir fanylion y camau a fyddai'n cael eu cymryd i amddiffyn a chefnogi preswylwyr a staff.

Ochr yn ochr â rhoi sicrwydd i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, byddai'r cynllun yn caniatáu craffu adeiladol a chyfrifol ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Galwais am i'r cynllun gweithredu gwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Profi preswylwyr a staff cartrefi gofal
- Darparu cyfarpar diogelu personol
- Mynediad at wasanaethau gofal iechyd gan gynnwys cymorth meddygon teulu a thriniaeth ysbyty
- Mynediad at gymorth iechyd meddwl (gan gynnwys cymorth mewn profedigaeth)
- Canllawiau a gwybodaeth ar gyfer cartrefi gofal, pobl hŷn a'u teuluoedd a'u ffrindiau i alluogi ymweliadau diogel
- Mesurau i alluogi gweithwyr cymdeithasol, eiriolwyr ac arolygiadau eraill gan Arolygiaeth Gofal Cymru i ymweld yn ddiogel
- Mynediad at hyfforddiant parhaus a chymorth gan gymheiriaid i reolwyr a staff cartrefi gofal
- Darparu cyfleusterau gofal dros dro / cyfleusterau camu i lawr i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel o'r ysbyty
- Cymorth ariannol i gartrefi gofal i sicrhau cynaliadwyedd yn ystod y pandemig hwn

Roeddwn yn croesawu cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, a oedd yn adlewyrchu'r galwadau am weithredu a nodwyd yn fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal.

## Galluogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal

Pan ddechreuodd y pandemig, caeodd llawer o gartrefi gofal eu drysau i ymwelwyr mewn ymdrech i atal Covid rhag mynd i mewn a rhoi pobl hŷn mewn perygl. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu nad oedd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru yn cael ymweliadau wyneb yn wyneb hanfodol gan anwyliaid, yn ogystal â chyfleoedd i adael y cartref gofal. Ar ben hynny, nid oedd llawer o weithwyr proffesiynol – megis gweithwyr iechyd proffesiynol neu weithwyr cymdeithasol – yn gallu cynnal ymweliadau.

Drwy gydol y cyfyngiadau symud cyntaf, galwais ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i alluogi ymweliadau diogel, ac ymgysylltu â darparwyr cartrefi gofal a sefydliadau allweddol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i nodi'r ffyrdd y gellid galluogi ymweliadau'n ddiogel.

Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn ymwneud ag ymweliadau â chartrefi gofal, oedd yn golygu y gellid ailuno llawer o bobl hŷn a'u teuluoedd yn ystod misoedd yr haf.

Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o'r ymweliadau hyn yn digwydd yn yr awyr agored, roeddwn yn poeni y byddai pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu gwahanu eto oni chymerwyd camau i alluogi ymweliadau diogel y tu mewn i'r cartref gofal.

Felly, cyhoeddais bapur briffio, gan ddefnyddio fy adroddiad Lleisiau Cartrefi Gofal a sesiynau ymgysylltu ymhellach â phobl hŷn a'u teuluoedd, a oedd yn nodi pam yr oedd galluogi ymweliadau diogel yn hanfodol i iechyd meddwl a chorfforol a lles pobl hŷn.

Yn y papur, galwais am asesu risgiau sy'n ymwneud ag ymweliadau ar sail unigol, gan ystyried y gwahaniaethau rhwng unigolion a'r anghenion sydd ganddynt, a'r gwahaniaethau rhwng cartrefi gofal, gan y gallai'r rhain effeithio'n sylweddol ar risgiau posibl.

Ochr yn ochr â hyn, roedd y papur hefyd yn nodi pam yr oedd angen ystyried y risgiau i breswylwyr a staff oherwydd y posibilrwydd o drosglwyddo Covid yn sgil ymweliadau yn erbyn y risg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal petai eu hiechyd corfforol a meddyliol yn dirywio o ganlyniad i gael eu cadw ar wahân yn hir oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau.

Ar ben hynny, tynnais sylw at gamau posibl y gellid eu cymryd i sicrhau ffordd haws i ymweliadau fynd rhagddynt yn ddiogel, gan gynnwys:

- Gwell cymorth i gartrefi gofal a staff
- Mwy o brofion
- Newidiadau i amgylcheddau cartrefi gofal
- Cydnabod aelodau o'r teulu fel 'ymwelwyr dynodedig' a rhoi mynediad iddynt at brofion, cyfarpar diogelu personol a hyfforddiant

Yn dilyn cyhoeddi'r papur briffio, ac ymgysylltu wedyn â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyhoeddwyd y byddai dau brosiect peilot yn cael eu lansio i gefnogi ymweliadau diogel. Cyflwynodd y peilot cyntaf y defnydd o brofion llif unffordd i ymwelwyr, tra bod yr ail yn sicrhau bod 'podiau ymweld' ar gael i gartrefi gofal er mwyn creu lle ychwanegol i ymweliadau fynd rhagddynt yn ddiogel.

Mae profion llif unffordd bellach yn cael eu defnyddio'n helaeth gan gartrefi gofal ledled Cymru i wirio ymwelwyr (mae angen canlyniad prawf negatif i fynd i mewn), ac roedd rhagor o bodiau ar gael i gartrefi gofal yn dilyn y peilot cychwynnol.

Yn dilyn atal ymweliadau cartrefi gofal eto ym mis Ionawr fel rhan o'r cyfyngiadau symud cenedlaethol yng Nghymru, galwais am ganiatáu i ymweliadau diogel â chartrefi gofal fynd rhagddynt er gwaethaf y cyfyngiadau 'Lefel 4', yn enwedig ac ystyried yr amddiffyniad y byddai'r brechlyn coronafeirws yn ei ddarparu i breswylwyr cartrefi gofal. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wedyn ym mis Chwefror fod hyn yn cael ei archwilio, a chadarnhaodd cyhoeddiad pellach y gallai ymweliadau dan do ddechrau eto ym mis Mawrth.

Fe wnes barhau i godi mater ymweliadau â chartrefi gofal yn ystod cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i drafod sut y gellid gwneud newidiadau pellach i drefniadau ymweld a fyddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn cynnig mwy o ryddid i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, megis dileu terfynau ar bwy allai ymweld, gan alluogi ymweliadau y tu allan i'r cartref gofal a sicrhau nad oedd mesurau diogelwch pan welwyd 'brigiad' o achosion yn anghymesur.

Roeddwn hefyd yn parhau i fonitro gweithrediad y canllawiau, er mwyn sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisi cyfredol, a oedd yn cynnwys rhoi cymorth i bobl hŷn a'u teuluoedd a oedd yn cael anawsterau wrth ymweld â'u hanwyliaid.

**Galwais ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i alluogi ymweliadau diogel, ac ymgysylltu â darparwyr cartrefi gofal a sefydliadau allweddol i nodi'r ffyrdd y gellid galluogi ymweliadau'n ddiogel**

# Sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gwasanaethau iechyd a gofal

**Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac mae materion yn ymwneud â'r mathau hyn o wasanaethau wedi bod yn nodwedd allweddol ar draws fy ngwaith, fel y nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.**

**Ochr yn ochr â hyn, cafwyd cryn dipyn o drafod a dadlau hefyd ynglŷn â sut y gallai'r pandemig newid y ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu yn y dyfodol, a beth allai hynny ei olygu i bobl hŷn.**

**Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn chwarae rhan hollbwysig o ran cefnogi annibyniaeth a lles pobl hŷn, a byddant yn arbennig o bwysig o ran cefnogi gofal dros dro gartref ac adsefydlu wrth i ni adfer o'r pandemig. Felly, cymerais gamau ar draws nifer o feysydd allweddol – wedi'u harwain gan y profiadau a rannwyd gan bobl hŷn mewn sesiynau ymgysylltu a'r rhai a rannwyd â'm tîm gwaith achos – i sicrhau na fydd pobl hŷn yn cael eu heithrio o'r gwasanaethau hyn wrth i ni symud ymlaen, a bod cynllunio a gwneud penderfyniadau yn y tymor byr a'r tymor hwy yn adlewyrchu eu hanghenion.**

## Cyflwyno Brechiadau

O gamau cynllunio'r broses o gyflwyno'r brechiad, ymgysylltais yn aml â Llywodraeth Cymru, a chefais gyfarfod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau y byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion a rhwystrau posibl a allai atal pobl hŷn rhag cael eu brechu.

Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chadeirydd Bwrdd y Rhaglen Frechu, ynghyd â chyfrannu at Fwrdd y Rhaglen Frechu (a ailenwyd wedyn yn Fforwm Rhanddeiliaid y Rhaglen Frechu), a oedd yn rhoi cyfleoedd parhaus i rannu unrhyw bryderon a materion.

Rhoddais sawl sesiwn friffio hefyd i Gadeirydd Bwrdd y Rhaglen Frechu (a rannwyd hefyd gyda'r Dirprwy Weinidog), yn nodi'r materion a'r pryderon a godwyd gyda mi gan bobl hŷn a gysylltodd â'm tîm gwaith achos, yn ogystal â'r rhai a rannwyd drwy sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill, megis Cadeiryddion grwpiau pobl hŷn, fel y gellid cymryd camau i'w datrys.

Er enghraifft, un mater allweddol y tynnais sylw ato oedd yr ansicrwydd sylweddol ymysg pobl hŷn ynglŷn â'r hyn y byddai'r broses frechu yn ei olygu. Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau ynghylch pwy fyddai'n cysylltu â nhw gyda manylion eu hapwyntiad, sut y byddent yn cysylltu â nhw, a phryd, yn gyffredinol, y gallent ddisgwyl i rywun gysylltu â nhw.

Yn dilyn hyn, dosbarthodd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru lythyr i bob cartref yng Nghymru, a oedd yn rhoi gwybodaeth am y broses frechu, gan adlewyrchu'r ymholiadau uchod. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Frechu hefyd, a oedd yn nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer darparu brechiad Covid-19 i grwpiau blaenoriaeth.

Yn yr un modd, yn dilyn pryderon a godais am sgamiau posibl yn ymwneud â'r brechiad Covid, dosbarthwyd gwybodaeth hanfodol am sut i adnabod sgamiau a'r pethau i gadw llygad amdanynt gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill ledled Cymru. Ar ben hyn, rhannodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wybodaeth hon wrth gyflwyno Papur Briffio dyddiol Llywodraeth Cymru.

Fe wnes i barhau hefyd i fonitro'n ofalus y broses o gyflwyno'r brechiad, gan adolygu'r holl ddata oedd ar gael bob dydd, a chodais bryderon droeon pan fethwyd targedau. Yn ystod camau cynnar y rhaglen frechu, roedd gennyf bryderon penodol ynghylch pa mor gyflym fyddai'r rhaglen yn cael ei chyflwyno i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, fel y nodwyd gan y data sydd wedi'i gyhoeddi a gofynnais am sicrwydd y byddai materion yn cael eu datrys yn gyflym. O ganlyniad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad data, ac ar ôl nodi nad oedd y data'n gywir, cymerodd gamau i unioni hyn.

Cynyddodd cyflymder ac effeithlonrwydd y broses gyflwyno'n sylweddol wedyn, rhywbeth yr oeddwn yn ei groesawu'n fawr.

## Straeon y Gaeaf

Gyda'r posibilrwydd o aeaf anodd o flaen pobl hŷn yn 2020, a'r potensial ar gyfer anawsterau parhaus yn ystod 2021, lansiais brosiect newydd i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu cyfleu ac y gellid eu defnyddio i ddylanwadu ar newid a sicrhau gwelliannau, gan weithio gydag ymchwilydd o Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR) Prifysgol Abertawe.

Ymgysylltodd yr ymchwilydd â chyfanswm o 23 o bobl hŷn ledled Cymru, a rannodd eu profiadau am eu bywydau yn rheolaidd yn ystod y gaeaf, gan gynnwys unrhyw gynlluniau a'r camau gweithredu a roddwyd ar waith ganddynt i'w helpu i fynd drwy fisoedd y gaeaf, y pethau a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol ac unrhyw faterion a oedd yn gwneud bywyd yn fwy anodd.

Roedd yr wybodaeth a gasglwyd drwy brosiect Straeon y Gaeaf yn rhoi diweddariadau 'amser real' i mi drwy gydol y Gaeaf am y mathau o anawsterau a heriau y gallai pobl hŷn eu hwynebu, gan fy helpu i nodi materion a chefnogi fy ngheisiadau galw am weithredu.

Ar ben hynny, mae'r prosiect wedi darparu tystiolaeth sy'n tynnu sylw at y rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw a lle mae angen gwelliannau, a fydd yn fy nghefnogi i ddylanwadu ar gynlluniau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill yng Nghymru, yn enwedig wrth i waith cynllunio gael ei wneud i baratoi ar gyfer Gaeaf 2021.

## Trafnidiaeth i Wasanaethau Iechyd

Cyn pandemig Covid-19, ymgymerais ag ymchwil trafnidiaeth i wasanaethau iechyd mewn ymateb i bryderon a godwyd yn aml gan bobl hŷn yn nodi'r rhwystrau yr oeddent yn aml yn eu hwynebu i gael mynediad at wasanaethau iechyd oherwydd materion yn ymwneud â thrafnidiaeth, ac effaith bosibl y rhain ar eu hiechyd a'u lles.

Roedd fy nghanfyddiadau'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy holiadur a ddosbarthwyd i bobl hŷn ledled Cymru (a gafodd dros 600 o ymatebion) a chyfres o sesiynau grŵp ffocws. Darparwyd tystiolaeth bellach ac enghreifftiau o arfer da hefyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST), y Gymdeithas Cludiant Cymunedol a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS).

Gwelsom fod pobl hŷn yn aml yn wynebu rhwystrau ac anawsterau sylweddol wrth deithio i wasanaethau iechyd, yn aml o ganlyniad i'r dewisiadau trafnidiaeth cyfyngedig sydd ar gael iddynt, a materion yn ymwneud ag ansawdd, hygyrchedd a dibynadwyedd. Er y nodwyd rhywfaint o arfer da, roedd yn amlwg bod angen amrywiaeth o gamau gweithredu i wella profiadau pobl hŷn pan fyddant yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethau iechyd, yn enwedig i'r rheini nad oes ganddynt fodd o ddefnyddio car.

Gan nad oedd yn bosibl i mi gyhoeddi fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion ym mis Mawrth 2020 fel y bwriadwyd oherwydd y pandemig, gweithiais gyda nifer o randdeiliaid allweddol i sicrhau y gellid gweithredu newid, ar unwaith ac yn y tymor hwy.

Ymgysylltais â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth arfaethedig Cymru – Llwybr Newydd – i rannu canfyddiadau allweddol a nodi'r newidiadau y byddai angen i'r strategaeth eu cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau cynllunio mwy effeithiol a chydgysylltiedig, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori'n well â defnyddwyr trafnidiaeth hŷn; dewisiadau trafnidiaeth mwy hygyrch a hyblyg; a gwell gwybodaeth am ddewisiadau trafnidiaeth, gan gynnwys cyfeirio'n well at wasanaethau amgen.

Croesawais y Strategaeth ddrafft pan gafodd ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori, gan y byddai'r camau a gynigiwyd yn sicrhau cynnydd yn y meysydd allweddol hyn.

Tynnodd fy nghanfyddiadau sylw hefyd at yr anawsterau yr oedd pobl hŷn yn eu hwynebu'n aml wrth ddefnyddio gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, megis gwasanaethau'n rhedeg yn hwyr, a achosodd bryder a gorbryder yn aml; faint o amser sydd ei angen i deithio i apwyntiad, gyda rhai teithiau'n cymryd drwy'r dydd er bod apwyntiad yn fyr iawn; ac anawsterau sy'n ymwneud â gofalwr neu hebryngwr yn teithio gyda rhywun y gallai fod angen cymorth arnynt.

Felly, ymgysylltais hefyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i sicrhau y gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn fel rhan o'u hagenda foderneiddio, gan groesawu'r ffaith y byddent yn adolygu gweithdrefnau trin galwadau, materion yn ymwneud ag amseroedd teithio hir a'r sefyllfa o ran caniatáu i hebryngwyr deithio gyda chlaf sy'n agored i niwed.

Gyda chryn dipyn o drafod a dadlau yn mynd rhagddynt ynglŷn â'r ffyrdd y gallai gwasanaethau trafnidiaeth iechyd newid wrth i ni symud ymlaen, byddaf yn parhau i ymgysylltu â darparwyr trafnidiaeth a chyrff cyhoeddus i sicrhau bod y mathau o faterion a nodais drwy fy ymchwil yn cael eu deall ac yn llywio cynlluniau pan fydd newidiadau'n cael eu hystyried.

**Ymgysylltais â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth arfaethedig Cymru – Llwybr Newydd – i rannu canfyddiadau allweddol a nodi'r newidiadau y byddai angen i'r strategaeth eu cyflawni**



# Helpu pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth, neu sydd mewn perygl o'i ddioddef

**Roedd atal cam-drin pobl hŷn yn parhau yn flaenoriaeth allweddol i mi drwy gydol y pandemig, yn enwedig gan fod pryderon sylweddol am y risg uwch i bobl hŷn gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu gael eu targedu gan droseddwyr, oherwydd y cyfyngiadau symud.**

**Arweiniais ystod o waith gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i sicrhau bod pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni Cynllun Cenedlaethol newydd i fynd i'r afael â cham-drin, yn ogystal â chyfleoedd sylweddol i adeiladu ar bartneriaethau a mentrau newydd i sbarduno newid pellach i bobl hŷn.**

## Sefydlu'r Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin

Oherwydd pryderon a amlygwyd yn y cyflwyniad uchod am y risgiau i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin oherwydd y pandemig, sefydlais y Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin, gan ddod â dros 30 o sefydliadau allweddol at ei gilydd.

Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth hanfodol i bobl hŷn, a'u teulu a'u ffrindiau, am sut i adnabod camdriniaeth neu droseddau, y ffyrdd y gall pobl gadw eu hunain a'u hanwyliaid yn ddiogel, a ble y gallant fynd am gymorth a chefnogaeth. Ar ben hynny, mae'r grŵp wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r rôl y gall y cyhoedd ei chwarae o ran amddiffyn pobl hŷn, a'u hannog i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les rhywun hŷn.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Cyhoeddi datganiadau ar y cyd ar faterion allweddol, megis ble i gael help yn ystod y cyfyngiadau symud, y rôl y gall pawb ei chwarae wrth amddiffyn pobl hŷn rhag camdriniaeth, sgamiau Covid ac aros yn ddiogel ar-lein.
- Rhannu gwybodaeth allweddol rhwng aelodau, y gellir ei dosbarthu ymhellach i lefel gymunedol.
- Datblygu adnoddau cyfryngau cymdeithasol helaeth sy'n tynnu sylw at wybodaeth a negeseuon allweddol.
- Cyhoeddi Pecyn Gwybodaeth Covid-19 (gweler isod).
- Datblygu taflen wybodaeth wedi'i hanelu at bobl hŷn (gweler isod).

Roedd y grŵp yn gallu cyrraedd miloedd o gysylltiadau mewn cymunedau ledled Cymru drwy rwydweithiau helaeth ei aelodau, gan sicrhau bod ganddynt (a'u bod yn gallu rhannu hyd yn oed yn ehangach) yr wybodaeth, yr arweiniad a'r adnoddau diweddaraf am gadw pobl hŷn yn ddiogel, yn ogystal â gwybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael ledled Cymru.

Er mwyn llywio a chefnogi gwaith y Grŵp Gweithredu, a sicrhau dull strategol o fynd i'r afael â materion a gododd oherwydd y pandemig, yn ogystal â materion hirsefydlog yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn, sefydlais

Grŵp Llywio hefyd, sy'n cynnwys rhai aelodau o'r Grŵp Gweithredu, ynghyd â phobl hŷn a'r rheini sydd wedi goroesi ar ôl cael eu cam-drin.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd y Grŵp Llywio ddogfen strategaeth, yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol y byddai'r Grŵp Gweithredu yn eu datblygu. Gan ganolbwyntio ar ddau faes allweddol – gwella gwasanaethau a chefnogaeth, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin a throseddau yn erbyn pobl hŷn – roedd y strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mapio'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael hynny'n digwydd iddynt, gan nodi bylchau ac arfer da i ysgogi newid (gweler isod)
- Sicrhau bod data a thystiolaeth am gam-drin yn cynnwys pobl hŷn, drwy ddileu'r terfyn oedran uwch o 74 ar ddata troseddu Cymru a Lloegr (gweler isod)
- Galluogi a grymuso pobl hŷn i deimlo'n hyderus i rannu eu profiadau o gam-drin ac annog eraill i ddweud eu dweud.
- Datblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Rwyf wedi cyflawni ystod o gamau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau hyn, fel y nodir isod, ac rwy'n gweithio gyda'r Grwpiau Gweithredu a Llywio i bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu pellach ar gyfer 2021-22.

Byddaf hefyd yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â cham-drin, a gweithio gyda nhw i sicrhau y bydd y camau a nodir yn y cynllun yn mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon yr wyf wedi'u codi.

## Pecyn Gwybodaeth a Thaflen Wybodaeth Covid-19 ar gyfer pobl hŷn

Cyhoeddais becyn gwybodaeth, gyda chymorth y Grŵp Gweithredu, i roi gwybodaeth hanfodol i bobl hŷn am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ystod y cyfyngiadau symud.

Roedd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i nodi a allai rhywun fod yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, yn ogystal â gwybodaeth am sut y gallai pobl hŷn amddiffyn eu hunain rhag troseddu a sgamiau, ynghyd â manylion cyswllt timau diogelu awdurdodau lleol i godi unrhyw bryderon, a manylion sefydliadau eraill a all ddarparu cymorth a chefnogaeth, a oedd yn cynnwys fy swyddfa.

Er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i bobl hŷn a allai fod yn cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin a'u cefnogi i gael y cymorth y gallai fod ei angen arnynt, lluniais daflen wybodaeth hefyd, sy'n rhoi manylion ble y gall pobl fynd am gymorth a chefnogaeth, arwyddion o gamdriniaeth y dylent fod yn chwilio amdanynt, a beth i'w wneud os ydynt yn poeni am rywun arall.

Wrth roi adborth ar y daflen, roedd pobl hŷn a rhanddeiliaid yn croesawu'r iaith glir a hygyrch, yn ogystal â'r astudiaethau achos yn seiliedig ar brofiadau pobl hŷn o fyw gyda chamdriniaeth.

Hyd yma, mae dros 10,000 o gopïau o'r daflen wedi'u dosbarthu ledled Cymru, drwy'r heddlu, cartrefi gofal, sefydliadau'r trydydd sector, lleoliadau'r GIG a fferyllfeydd.



## Llety a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin: Cyflwyno'r achos dros newid

Un mater allweddol a godwyd drwy waith y Grŵp Gweithredu oedd argaeledd llety a chymorth priodol i bobl hŷn sydd angen gadael perthynas gamdriniol. Roedd llawer o bobl hŷn a oedd wedi rhannu eu profiadau â mi ac aelodau'r Grŵp Gweithredu wedi ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau a oedd yn diwallu eu hanghenion yn llawn.

I edrych ar y mater hwn yn fanylach a nodi'r newidiadau a'r gwelliannau sydd eu hangen, cynhaliais ddigwyddiad bord gron gydag aelodau'r grŵp gweithredu a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Nicole Jacobs, Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr.

Yn ystod y digwyddiad, clywodd y cynrychiolwyr yn uniongyrchol gan oroeswr cam-drin domestig, a ddisgrifiodd yr anawsterau a'r rhwystrau sylweddol yr oedd wedi'u hwynebu a oedd wedi golygu ei bod bron yn amhosibl iddi adael ei gŵr oedd yn ei cham-drin.

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i archwilio canfyddiadau arolwg o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a gynhaliwyd ar fy rhan, a nododd ei bod yn ymddangos bod prinder llety penodol i bobl hŷn sy'n byw gydag anableddau a/neu faterion symudedd, ac y gall fod anawsterau wrth geisio helpu pobl i symud o ddarpariaeth frys i lety arall.

Defnyddiodd cynrychiolwyr y dystiolaeth hon i nodi sawl maes lle'r oedd angen gweithredu, ar unwaith ac yn y tymor hwy:

- Gwella ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn a'i effaith
- Gwella'r data sydd ar gael i sicrhau nad yw profiadau pobl hŷn yn cael eu gwneud yn anweledig i wneuthurwyr polisi a llunwyr penderfyniadau
- Gwella dewisiadau tai a chymorth, gan gynnwys darparu llety hygyrch gyda chymorth i'r rhai sydd ei angen
- Gwella mynediad at wasanaethau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adolygiad o'r polisi presennol o godi tâl ar ddioddefwyr sy'n cael eu cam-drin am lety lloches
- Datblygu gwasanaethau mwy arbenigol i bobl hŷn a sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu comisiynu
- Gwella mynediad at gyfiawnder, gan gynnwys gwella mynediad at gymorth cyfreithiol a chefnogaeth

Rwy'n gweithio gydag aelodau'r Grŵp Gweithredu i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y meysydd uchod, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'i grwpiau a'i rhwydweithiau – fel y Bwrdd Diogelu Annibynnol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol – yn cymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau bod pobl hŷn y mae angen iddynt adael perthnasoedd camdriniol yn gallu cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod y materion a amlygir uchod yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth newydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

## Mapio Gwasanaethau Cymorth Cam-drin ar gyfer Pobl Hŷn

Oherwydd pryderon am fylchau posibl yn y gefnogaeth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin, fe wnes ymgymryd â phrosiect ymchwil i nodi a mapio'r mathau o wasanaethau sydd ar gael ledled Cymru. Byddai hyn yn fy ngalluogi i archwilio lle y gallai fod angen adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall pobl hŷn gael y cymorth sydd ei angen arnynt, pryd a ble y mae ei angen arnynt, a byddai'n darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi fy ngalwad am newid.

Casglwyd tystiolaeth hanfodol drwy gyfarfodydd â goroeswyr cam-drin hŷn, a olygai y gallai'r tîm ymchwil glywed yn uniongyrchol am eu profiadau ymarferol o gael gafael ar gymorth, ac am unrhyw faterion a heriau yr oeddent yn eu hwynebu.

Yn ogystal â hyn, casglwyd tystiolaeth hefyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a thrwy adolygu data a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Rhoddodd yr ymchwil ddarlun manwl o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael ledled Cymru, a thynnodd sylw at sawl mater:

- Er bod cymorth ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae hyn yn aml yn gyffredinol ac nid yw'n addas i ddiwallu anghenion pobl hŷn.
- Yn aml, nid yw'r iaith a'r delweddau a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth am gam-drin a hyrwyddo gwasanaethau cymorth yn adlewyrchu profiadau pobl hŷn, a allai fod yn rhwystr iddynt gael gafael ar gymorth a chefnogaeth.
- Mewn rhai achosion, nid yw cam-drin rhywun hŷn yn cael ei gydnabod, sy'n golygu y gallai cyfleoedd i ddarparu cymorth a chefnogaeth gael eu colli.

Byddaf yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol mewn cynhadledd ar-lein sydd ar y gweill i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni'r camau y mae angen eu cymryd, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer partneriaethau newydd a chydweithio, i gynnig atebion ymarferol i'r materion a nodwyd drwy fy ymchwil y gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff a gwasanaethau cyhoeddus eraill eu datblygu.

## Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth

Defnyddiais ganfyddiadau fy ymchwil mapio i ddatblygu cyfeiriadur o wasanaethau cymorth i ddarparu gwybodaeth hanfodol i bobl hŷn am ble y gallent fynd petai angen help a chefnogaeth arnynt.

Gall pobl hŷn ddefnyddio'r cyfeiriadur i chwilio am y gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol, cael gafael ar wybodaeth am y mathau o gymorth a gynigir gan wahanol wasanaethau, a dod o hyd i fanylion cyswllt yn hawdd fel y gallant ofyn am help os oes ei angen arnynt. Mae'r cyfeiriadur hefyd yn darparu gwybodaeth am wasanaethau Cymru gyfan a'r cymorth y gallant ei gynnig.

Bydd y cyfeiriadur hefyd yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i'r bobl hŷn y maent yn gweithio gyda nhw, a'u cyfeirio at gymorth os oes ei angen arnynt.

## Dileu terfyn oedran uchaf data'r arolwg troseddu

Yr wyf wedi galw'n gyson am ddileu'r terfyn oedran uchaf o 74 ar gyfer casglu data sy'n ymwneud â throseddau yn erbyn pobl hŷn, a pharhau i weithio i sicrhau bod y data sydd ar gael yn rhoi darlun cywir o brofiadau pobl hŷn, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau y gellir targedu adnoddau a chymorth yn fwy effeithiol.

Ar ôl nodi cyfleoedd i sicrhau newid drwy Fil Cam-drin Domestig y DU, rhoddais friff manwl i wleidyddion San Steffan, yn dilyn cais am wybodaeth gan Aelod o Dŷ'r Arglwyddi a oedd yn ymwybodol o'r effaith yr oedd fy ngwaith yn ei chael yng Nghymru. Arweiniodd hyn at dynnu sylw at fy ngwaith a'm rôl sawl gwaith yn ystod dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi i lunio a dylanwadu ar gynnwys y Bil.

Ochr yn ochr â hyn, gweithiais gydag Age UK, gan gyhoeddi datganiad ar y cyd i gyd-fynd â lansiad eu hadroddiad 'Dim Terfyn Oedran' a oedd yn nodi pam ei bod yn hanfodol nad yw profiadau pobl hŷn yn cael eu diystyru gan wneuthurwyr polisi a llunwyr penderfyniadau oherwydd diffyg data ystyrlon.

Ysgrifennais hefyd at Ystadegydd Cenedlaethol y DU yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn galw am weithredu i ddileu'r terfyn oedran a gwella'r data sydd ar gael.

Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ionawr 2021 y byddai'r terfyn oedran uchaf yn cael ei ddileu, a chroesawais hynny'n fawr, cefais gyfarfod â'r Ystadegydd Cenedlaethol i archwilio'r cynlluniau sydd ar waith i ddatblygu hyn. Cadarnhaodd fod gwaith i wella'r data yn dechrau ar unwaith, gyda'r data 'pob oed' cyntaf ar gael o 2023

.

**Byddaf yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni'r camau y mae angen eu cymryd, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer partneriaethau newydd a chydweithio, i gynnig atebion ymarferol i'r materion a nodwyd drwy fy ymchwil y gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff a gwasanaethau cyhoeddus eraill eu datblygu**

# Dysgu'r gwersi ac edrych i'r dyfodol

**Mae'r anawsterau a'r heriau a achoswyd gan y pandemig wedi dangos bod angen llawer iawn o weithredu i sicrhau, wrth i ni edrych i'r dyfodol, y gall pobl hŷn chwarae rhan yn y gwaith o adfer Cymru, cyfrannu at ein heconomi, a chael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt.**

**Ac ystyried y ffyrdd penodol y mae'r pandemig wedi effeithio ar bobl hŷn a'r adnoddau a'r gwasanaethau cymunedol sy'n aml yn achubiaeth iddynt, bydd angen canolbwyntio'n sylweddol ar alluogi pobl i heneiddio'n dda ac ar wneud ein cymunedau'n fwy ystyriol o oedran, a fydd yn hanfodol er mwyn meithrin hyder ymhlith pobl hŷn i ailymgysylltu â chymdeithas, ac i gefnogi ailalluogi ac adsefydlu.**

**Mae'r ymateb i'r pandemig yng Nghymru, yn enwedig ar lefel leol, wedi dangos bod sylfeini cadarn i adeiladu arnynt, a thrwy gydol 2020-21 rwyf wedi bod yn gweithio i sicrhau y bydd y camau gweithredu a'r polisïau a welwn wrth i ni symud tuag at ein hadferiad yn gwella arferion a gwasanaethau, ac yn cyflawni'r newid y mae pobl hŷn am ei weld ac angen ei weld.**

## Gadael neb ar ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn

Gyda thrafodaeth a dadlau cynyddol am sut y gallai ein hadferiad o'r coronafeirws edrych, cyhoeddais fy adroddiad 'Gadael neb ar ôl' ym mis Awst 2020, yn galw ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i weithredu ar unwaith ac yn y tymor hir i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu 'gadael ar ôl' wrth i Gymru symud ymlaen.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn, sydd wedi rhannu eu profiadau â mi drwy gydol y pandemig, yn ogystal â gwybodaeth, tystiolaeth a data a gasglwyd drwy ymgysylltu'n barhaus â chyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan.

Yn yr adroddiad, nodais ystod o gamau ymarferol sydd eu hangen ar draws nifer o feysydd allweddol – gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, yr economi a'n cymunedau – i fynd i'r afael â'r materion a grëwyd gan y pandemig, yn ogystal â'r materion strwythurol ehangach sy'n effeithio ar bobl hŷn y mae Covid-19 wedi'u gwneud yn waeth. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

- Diddymu adrannau o'r Ddeddf Coronafeirws a allai beryglu hawliau pobl hŷn i gael gofal a chymorth.
- Sefydlu rhaglen adsefydlu ar gyfer pobl hŷn y mae Covid-19 wedi cael effaith gorfforol a/neu feddyliol arnynt.
- Sefydlu rhaglen benodol i helpu gweithwyr hŷn i barhau i weithio neu i ailhyfforddi os ydyn nhw'n wynebu colli eu swydd.
- Buddsoddi mewn ymgyrch benodol a chymorth i gynyddu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn.
- Rhoi cymorth wedi'i deilwra i bobl hŷn er mwyn iddyn nhw allu mynd ar-lein, gan gynnwys darparu dyfeisiau hawdd eu defnyddio sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.

Rhannais y dystiolaeth a gasglwyd yn fy adroddiad â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill i sicrhau y byddai lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn llywio cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Rhannwyd fy nghanfyddiadau hefyd mewn digwyddiad gweminar ar raddfa fawr lle'r oedd dros 350 o gynrychiolwyr sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn bresennol, i ystyried sut y dylid bwrw ymlaen â'm galwadau.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, croesawais gynnydd yn erbyn llawer o'm galwadau am weithredu, gan gynnwys:

- Cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru
- Atal mesurau yn y ddeddf coronafeirws sy'n peryglu hawliau pobl hŷn i ofal cymdeithasol
- Lansio'r ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n Ddyledus i Chi' gan Lywodraeth Cymru i annog pobl i fanteisio ar Gredyd Pensiwn a hawliau ariannol eraill
- Dileu'r terfyn oedran uchaf o 74 o ran casglu data ar gyfer Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
- Cyhoeddi Agenda Cynhwysiant Digidol y Gynghrair Cynhwysiant Digidol, a dynnodd sylw at alwadau'r Comisiynydd am weithredu o fewn yr adroddiad 'nodedig' Gadael neb ar ôl

Rwyf hefyd wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru i sicrhau y bydd cynnydd pellach o ran cyflawni'r camau y galwodd am eu cymryd.

Ar ben hyn, yn ogystal â chael ei groesawu a'i rannu'n eang gan bobl hŷn a rhanddeiliaid, mae'r adroddiad wedi cael ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd gan amrywiaeth o sefydliadau i gefnogi eu gwaith ac arwain eu blaengynlluniau:

- **Llywodraeth Cymru –** cyfeiriodd at alwad yr adroddiad am ystyried mynediad digidol yn hawl mewn datganiad Polisi a Strategaeth
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan –** adroddiad wedi'i rannu â'r tîm gweithredol a phersonél allweddol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Nyrsio
- **Cyngor Abertawe –** cynllunio i ymgorffori'r adroddiad a chamau gweithredu cysylltiedig o fewn eu meysydd gwaith a'u cynlluniau partneriaeth yn y dyfodol
- **Prifysgol Bangor –** adroddiad wedi'i gynnwys ar restr ddarllen myfyrwyr ôl-raddedig
- **Living Streets Cymru –** adroddiad wedi'i amlygu mewn datganiad i'r wasg am brosiect Cyfeillion Cerdded Cymru

## Maniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2021

Ym mis Tachwedd, cyhoeddais fy Maniffesto ar gyfer Etholiad Senedd 2021, a oedd yn nodi'r camau rwyf am i Lywodraeth nesaf Cymru eu cymryd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu byw bywydau iach a boddhaus mewn cymdeithas sy'n gynhwysol, yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad sylweddol, ac yn cynnal eu hawliau.

Galwodd y Maniffesto am weithredu ar unwaith i alluogi pobl hŷn i wella o'r pandemig, yn ogystal â'r ymrwymiadau deddfwriaeth, polisi ac adnoddau newydd sydd eu hangen i sbarduno newid tymor hwy i wella bywydau pobl hŷn ledled Cymru yn ystod tymor nesaf y Senedd a thu hwnt.

Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru yn cynnwys sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau adsefydlu a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt ar ôl y pandemig, yn ogystal â gweithredu i wneud cymunedau'n fwy ystyriol o oedran a chefnogi pobl hŷn i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith.

Rwyf hefyd yn galw am weithredu ehangach

i gefnogi heneiddio'n iach, mynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn, dileu gwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle, lleihau lefelau tlodi a thlodi tanwydd, a darparu mwy o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

Ochr yn ochr â hyn, nodais y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i ysgogi newid ystyrlon i bobl hŷn, sy'n cynnwys:

- Deddfwriaeth i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.
- Deddf gofal cymdeithasol newydd i fuddsoddi mwy yn ein system gofal cymdeithasol, gan gynnwys ehangu'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwella'r telerau ac amodau ar gyfer staff y presennol a'r dyfodol.
- Deddfwriaeth i sefydlu hawl i gysylltedd digidol i bawb.

Roedd y maniffesto hefyd yn cynnwys cyfres o egwyddorion craidd a fydd yn arwain ac yn sail i ddull gweithredu Llywodraeth nesaf Cymru o ran llywodraethu er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth yn cael eu defnyddio i siapio polisïau ac arferion a'u bod yn rhan hanfodol o'r broses gwneud penderfyniadau.

## Heneiddio'n Dda yng Nghymru: Gwneud cymunedau fwy o blaid pobl hŷn

O'r hydref ymlaen, fe wnes barhau i weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i'w hannog a'u cefnogi i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn, sy'n darparu cydnabyddiaeth a chefnogaeth i fentrau o blaid pobl hŷn, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd rhwng dinasoedd a chymunedau ledled y byd.

Mae hyn wedi golygu bod Abertawe bellach wedi cyhoeddi ei bwriad i ddechrau proses ymgeisio Sefydliad Iechyd y Byd i'w chydnabod fel cymuned o blaid pobl hŷn, gydag Ynys Môn, Blaenau Gwent, Caerdydd a Bro Morgannwg hefyd yn gweithio tuag at ddechrau'r broses ymgeisio. Bydd y Comisiynydd hefyd yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n weddill ac yn eu cefnogi fel y gallant gyflawni prosiectau a mentrau a fydd yn eu symud yn nes at gydnabyddiaeth Sefydliad Iechyd y Byd.

Er mwyn cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu a chyflawni mentrau o blaid pobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru, rwyf wedi sefydlu Grŵp Llywio Cymru o Blaid Pobl Hŷn. Mae hyn wedi creu partneriaeth strategol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddarparu arbenigedd a chymorth i hyrwyddo a dylanwadu ar bolisi ac arfer o blaid pobl hŷn.

Er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i ymarferwyr lleol, rwyf hefyd wedi sefydlu Cymuned Ymarfer o Blaid Pobl Hŷn ledled Cymru, sy'n ceisio helpu aelodau i ffurfio perthynas gefnogol, rhannu dysgu a phrofiadau, a goresgyn heriau cyffredin.

## Dylanwadu ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio

Ymgysylltais â Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu ei Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, er mwyn llunio ei chynnwys a sicrhau y bydd yn galluogi polisi ac arfer a fydd yn cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda ac yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau, cymryd rhan ynddynt a chyfrannu atynt.

Gofynnais i'r Strategaeth ganolbwyntio'n gryf ar ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, a chefnogi camau gweithredu i amddiffyn pobl hŷn rhag camdriniaeth, mynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, hyrwyddo undod rhwng cenedlaethau a gwneud ein cymunedau'n fwy ystyriol o oedran.

Croesawais y strategaeth ddrafft pan gafodd ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, gan y byddai'n gam pwysig tuag at gynllunio a chyflawni newid a gwneud cynnydd mewn meysydd allweddol lle'r oeddwn wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru. Anogais bobl hŷn hefyd – arbenigwyr yn ôl profiad – i rannu eu barn a'u syniadau gyda Llywodraeth Cymru a lleisio eu barn am y gwelliannau y maent am eu gweld.

Byddaf yn parhau i fonitro a chraffu'n ofalus ar ddatblygiad y strategaeth a byddaf yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi ac arfer i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan gymdeithas sy'n heneiddio a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wireddu'r uchelgais a'r ymrwymiadau yn y strategaeth ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

## Lleihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn

Drwy gydol y pandemig, roedd llawer o bobl hŷn yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Amlygodd y pandemig raniad digidol amlwg yng Nghymru a'r effaith sylweddol y gall allgáu digidol ei chael ar fywydau pobl, rhywbeth sy'n peri pryder arbennig o gofio bod nifer o gyrff cyhoeddus wedi cyflymu'r broses o gyflwyno a defnyddio gwasanaethau digidol oherwydd Covid-19.

Galwais felly am amrywiaeth o gamau gweithredu uniongyrchol a thymor hwy i leihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn yn fy adroddiad Gadael Neb ar ôl:

- Archwiliadau ar lefel gymunedol i nodi pobl hŷn agored i niwed a gafodd eu hallgáu'n ddigidol yn ystod y pandemig
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl hŷn a nodwyd i fynd ar-lein, gan gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd a/neu ddyfeisiau hawdd eu defnyddio lle bo angen.
- Sefydlu hawl i gysylltedd digidol – edrych ar seilwaith digidol fel gwasanaeth hanfodol y mae ar y boblogaeth gyfan angen mynediad fforddiadwy ato.
- Cyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd a gweithio tuag at ddarparu mynediad cyffredinol am ddim i'r rhyngrwyd.
- Gwaith allgymorth gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gefnogi pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau digidol

Rwy'n gweithio gyda chyd-aelodau o Fwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru a Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, i archwilio sut y gellir bwrw ymlaen â'r camau hyn i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fynd ar-lein.

Ochr yn ochr â hyn, rwyf hefyd yn archwilio'r camau y gallai fod eu hangen i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt yn gallu mynd ar-lein neu sy'n amharod i fynd ar-lein yn dal i allu cael gafael ar yr wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddynt.

**Galwais am amrywiaeth o gamau gweithredu uniongyrchol a thymor hwy i leihau allgáu digidol ymhlith pobl hŷn yn fy adroddiad Gadael Neb ar ôl**

# Estyn allan at bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw

## Rhoi cymorth i bobl hŷn drwy waith achos

**“Rhyfeddol sut y gwnaeth un alwad ffôn gennych ddatrys pethau, a oedd wedi llusgo am 8 wythnos ers i’r cyfyngiadau symud ddechrau. Mawr yw fy niolch.” - Rhywun hŷn**

Yn ystod 2020-21, darparodd fy nhîm gwaith achos gymorth a chefnogaeth i 576 o bobl hŷn ledled Cymru, naill ai’n uniongyrchol neu drwy aelodau o’r teulu ac eraill a gysylltodd â’r tîm ar ran rhywun hŷn. Agorwyd 67 o achosion hefyd i ddelio ag ymholiadau gan y cyhoedd yn ehangach neu i ymchwilio i faterion a phryderon a godwyd ganddynt.

Nodir nifer yr achosion isod, gyda chymariaethau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, ac maent yn tynnu sylw at gynnydd pellach yn nifer y bobl sydd wedi ceisio cymorth, cefnogaeth neu wybodaeth gennyf yn ystod 2020-21:

| 2020-21 | 643 |
|---|---|
| 2019-20 | 563 |
| 2018-19 | 418 |

**“Diolch yn fawr, rwy’n gwerthfawrogi eich amser yn fawr, ac ers i mi gysylltu â’ch swyddfa, rwy’n teimlo’n fwy cadarnhaol gwybod bod eich comisiynydd yn gwneud popeth y gall i helpu ein hanwyliaid.” – Ymwelydd cartref gofal (aelod o’r teulu)**

Yn ôl y disgwyl, roedd nifer sylweddol o’r ymholiadau a dderbyniwyd gan y tîm gwaith achos yn ymwneud â Covid-19 a’i effaith ar bobl hŷn, gyda’r mwyafrif (57%) yn gysylltiedig â materion iechyd a gofal cymdeithasol. Ceir crynodeb o’r materion allweddol y cysylltwyd â mi yn eu cylch isod:

### Iechyd

- Gwybodaeth am frechiad coronafeirws, a mynediad ato
- Ymweliadau ag ysbytai
- Defnyddio hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol
- Gwybodaeth am hunanynysu / gwarchod
- Mynediad at wasanaethau (e.e. cael presgripsiynau)

**“Diolch yn fawr am eich gohebiaeth a amlinellodd amrywiol gysylltiadau a sefydliadau am gymorth ychwanegol, a werthfawrogwyd yn fawr yn yr amgylchiadau presennol.” - Dienw**

### Gofal

- Ymweld ag anwyliaid mewn cartrefi gofal
- Pryderon ynghylch argaeledd cyfarpar diogelu personol mewn cartrefi gofal
- Mynediad at ofal cartref
- Gwybodaeth am gyfyngiadau Covid a theithio i ddarparu gofal
- Ffioedd cartrefi gofal – ffioedd ychwanegol yn gyffredinol a ffioedd am gostau covid uwch
- Help i gael gafael ar ofal cymdeithasol, gan gynnwys y dewis gorau o gartref gofal

**“Diolch yn fawr am eich cymorth wrth ddatrys y mater hwn. Heb eich help chi byddwn wedi mynd ar goll yn y system.” - Dienw**

Ochr yn ochr â hyn, rhoddodd y tîm gymorth hefyd ar amrywiaeth o faterion eraill yn ymwneud â thai, cymunedau, cyllid a cham-drin.

Mae’r profiadau a’r wybodaeth a rennir gan bobl hŷn a’u teuluoedd wedi rhoi llawer o dystiolaeth amhrisiadwy i mi am brofiadau pobl o’r pandemig a’r ffyrdd y mae polisi ac arweiniad yn cael eu trosi’n ymarferol ‘ar lawr gwlad’.

Mae hyn wedi fy helpu i nodi materion ac enghreifftiau lle nad yw hawliau pobl hŷn wedi’u cynnal o bosibl, a olygai y gallwn godi pryderon gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a galw arnynt i weithredu.

Mae’r dystiolaeth a gasglwyd drwy fy nhîm gwaith achos hefyd wedi helpu i arwain a llunio fy ngwaith, fy mlaenoriaethau a’m gwaith cynllunio parhaus, ac mae wedi fy ngalluogi i nodi cyfleoedd i ddosbarthu gwybodaeth ac adnoddau ar faterion allweddol i rymuso a chefnogi pobl hŷn.

**“Mae hyn yn hollol wych, ni allaf ddiolch digon i chi. Byddaf yn rhannu’r wybodaeth hon â fy mam ar unwaith. Diolch yn fawr unwaith eto.” - Aelod o’r teulu**

**“Diolch yn fawr iawn i chi am eich ateb. .... mor braf dod o hyd i rywun sy’n gwrando” – Ymwelydd cartref gofal (aelod o’r teulu)**

## Darparu gwybodaeth i bobl hŷn

Un o’r blaenoriaethau allweddol i mi yn ystod 2020-21 oedd sicrhau y gallai pobl hŷn gael gafael ar wybodaeth hanfodol am sut i gadw eu hunain yn ddiogel yn ystod y pandemig, yn ogystal â manylion rheoliadau a chanllawiau sydd wedi’u newid a’u diweddaru’n rheolaidd.

Yn ogystal â dosbarthu gwybodaeth allweddol i bobl hŷn drwy fy rhwydwaith a’m cysylltiadau, gan gynnwys Cadeiryddion sefydliadau pobl hŷn a phartneriaid heneiddio’n dda, datblygais, ac rwyf wedi parhau i ddiweddaru, canolfan wybodaeth coronafeirws ac adran Holi ac Ateb ar fy ngwefan i roi’r wybodaeth a’r arweiniad diweddaraf i bobl hŷn a’u teuluoedd, yn ogystal â manylion am wasanaethau a chymorth sydd ar gael mewn cymunedau ledled Cymru.

Gweithiais hefyd mewn partneriaeth ag Age Cymru i ddatblygu sesiwn holi ac ateb benodol yn ymwneud â’r brechiad coronafeirws, gan ddarparu ystod o wybodaeth am ei ddiogelwch a’i effeithiolrwydd, yn ogystal â manylion am y broses gyflwyno ei hun.

Ymwelwyd â’r tudalennau hyn dros 12,500 o weithiau gan dros 4,600 o unigolion yn ystod 2020-21.

Ochr yn ochr â hyn, defnyddiais fy sianeli cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth allweddol a chyngor ymarferol i bobl hŷn, sydd wedi cael ei rannu a’i ail-bostio’n eang. Roedd hyn yn cynnwys:

- Awgrymiadau i gefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein a defnyddio apiau i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau
- Gwybodaeth am y cymorth a’r gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn sy’n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin
- Codi ymwybyddiaeth o’r fenter ‘Gofyn am Ani’

- Tynnu sylw at sgamiau posibl sy'n ymwneud â'r pandemig a chyflwyno brechiadau
- Gwybodaeth am hawlio Credyd Pensiwn
- Gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i gwblhau'r Cyfrifiad

Cyrhaeddais dros 255,886 o unigolion drwy Facebook yn ystod 2020-21, a chafodd fy negeseuon Twitter 1,171,300 o 'argraffiadau' (nifer yr adegau y gwelir neges Trydar).

Defnyddiais y sianeli hyn hefyd i rannu gwybodaeth allweddol gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i sicrhau eu bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Ar ben hyn, sefydlais grŵp Facebook newydd – Together We Are Stronger – sy'n rhoi lle i bobl hŷn, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gysylltu a sgwrsio, gofyn cwestiynau a chael gwybod am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae aelodaeth y grŵp wedi parhau i dyfu drwy gydol y pandemig, ac erbyn hyn mae dros 300 o aelodau.

Rwyf hefyd wedi parhau i ddosbarthu copïau papur o'm cylchlythyr i bobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru, i roi gwybodaeth a diweddariadau allweddol iddynt am fy ngwaith.

## Gweithio gyda'r cyfryngau

Rwyf wedi sicrhau presenoldeb amlwg yn y cyfryngau drwy gydol y pandemig, gan weithio gyda'r cyfryngau ledled Cymru a'r DU i godi pryderon, cynnig cipolwg a sylwadau, a nodi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn, a sicrhau y gallent gael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt.

Amlygodd adborth gan bobl hŷn eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr fy ngweld yn hyrwyddwr uchel ei gloch dros eu hawliau ac yn codi pryderon yn gyhoeddus am y materion sy'n effeithio arnynt. Dywedodd nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd hefyd wrth fy nhîm gwaith achos eu bod wedi cysylltu o ganlyniad i weld cyfweliad gyda mi.

Roedd fy ngwaith gyda'r cyfryngau yn cynnwys cyfweliadau â rhaglenni newyddion ar draws radio a theledu, yn ogystal â darllediadau mewn papurau newydd lleol a cenedlaethol, gan gynnwys cyhoeddiadau'r DU fel The Guardian, Independent a Daily Mail.

Ochr yn ochr â hyn, ysgrifennais erthyglau a blogiau hefyd ar gyfer cyhoeddiadau a gwefannau rhanddeiliaid i lywio trafodaeth a dadl yn ymwneud â hawliau pobl hŷn, amddiffyn pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, mynd i'r afael â thlodi, cynhwysiant digidol a heneiddio'n dda.

Yn ystod 2020-21, cafodd fy ngwaith ei gynnwys mewn 188 o eitemau newyddion ar draws y cyfryngau print, radio a theledu. Arweiniodd y sylw hwn at 2,555,101,364 o 'gyfleoedd i weld', a gwerth hysbysebu sy'n cyfateb i £19,241,199.

## Ymgysylltu â Phobl Hŷn

Drwy gydol y pandemig, cynhaliais sesiynau ymgysylltu ar-lein gyda phobl hŷn ledled Cymru, i sicrhau y gallwn glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am eu profiadau, a'r materion a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu oherwydd y pandemig, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed, eu cyfleu ac y gellid gweithredu arnynt. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau penodol yn edrych ar adferiad Cymru, a helpodd i lywio adroddiad Gadael neb ar ôl, yn ogystal â sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl pobl hŷn.

Ar ben hyn, cefais gyfarfodydd rheolaidd â Chadeiryddion grwpiau pobl hŷn – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol a Senedd Pobl Hŷn Cymru – drwy gydol y pandemig i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau, rhoi atebion i gwestiynau a lledaenu gwybodaeth allweddol.

Un o'r pethau roeddwn am ganolbwyntio arnynt oedd parhau i ymgysylltu â chymunedau BAME. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ymgysylltu yn benodol ar gyfer pobl hŷn BAME, a gweithio gyda Thîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru (EYST Cymru) i gyfarfod ag aelodau'r fforwm fel y gallwn glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn o gymunedau BAME am eu profiadau yn ystod y pandemig, a'r rhwystrau a'r anawsterau penodol yr oeddent yn eu hwynebu.

Rwyf wedi defnyddio'r ystod eang o wybodaeth a phrofiadau a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu hwn i ddylanwadu ar y polisïau a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac i lywio fy ngwaith, fy nghynlluniau a'm blaenoriaethau.

## Ymgysylltu â Sefydliadau sy'n Rhanddeiliaid

Drwy gydol y pandemig, ymgysylltodd fy nhîm a fi â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid ledled Cymru, i rannu gwybodaeth, lledaenu negeseuon allweddol, a chasglu tystiolaeth am brofiadau pobl hŷn. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd a sesiynau bord gron, yn ogystal â chyflwyno prif areithiau ar bynciau allweddol – fel hawliau pobl hŷn a'n hadferiad o'r pandemig – mewn digwyddiadau cynadledda a seminarau ar-lein. Dyma enghreifftiau:

- Symposiwm Arbennig Covid-19, Cymdeithas Gerontoleg Prydain
- Gweminar Oedraniaeth a Phobl Abl, Canolfan Hirhoedledd Ryngwladol
- Digwyddiad bord gron Hawliau Cartrefi Gofal, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Gŵyl Gofal Cartref, Scottish Care
- 
- Gweminar dyfodol gofal yng Nghymru, Canolfan Llywodraethiant Cymru
- Cymryd camau ar gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn, y Sefydliad Tai Siartredig
- Hawliau Dynol Pobl Hŷn a digwyddiad bord gron y Gweithgor Penagored, y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu
- Digwyddiad BAME Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, Llywodraeth Cymru
- Digwyddiad Bord Gron Covid-19, Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO)
- Cynhadledd 5 gwlad Cymdeithas Geriatreg Prydain ar gartrefi gofal
- Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol ADSS Cymru

Roedd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd i mi lunio trafodaeth a dadl, a dylanwadu ar ddulliau meddwl a gwneud penderfyniadau, ar faterion allweddol yn ymwneud â'r pandemig a'm blaenoriaethau ehangach – rhoi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda – ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol. O ganlyniad, bu llawer iawn o ddiddordeb yn fy rôl a'r effaith gadarnhaol y mae fy ngwaith craffu a herio yn ei achosi ar fywydau pobl hŷn, yn ogystal â galwadau am sefydlu rolau tebyg yn Lloegr a'r Alban.

Rwyf hefyd wedi sefydlu partneriaethau newydd i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig a strategol o fwrw ymlaen â gweithredu ar faterion allweddol sy'n ymwneud â'r pandemig, ac i ddarparu cyfleoedd i godi pryderon gyda llais pwerus a chyfunol. Yn ogystal â sefydlu'r Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin (fel yr amlygwyd uchod), deuthum hefyd â sefydliadau allweddol sy'n gweithio ledled y DU – gan gynnwys Age UK, Care Scotland a Chomisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon at

ei gilydd – i archwilio materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn a'u hawliau.

Mae'r grŵp hwn wedi bod yn cydweithio i graffu ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb gan lywodraethau a chyrff cyhoeddus ledled y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu hawliau pobl hŷn. Gan weithio mewn partneriaeth, cyhoeddodd y grŵp nifer o ddatganiadau yn y cyfryngau yn ymwneud â hawliau pobl hŷn, mynediad at driniaeth a phenderfyniadau cyffredinol yn ymwneud â hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol. Cafodd y datganiadau hyn sylw helaeth yn y cyfryngau yng Nghymru a'r DU ac maent wedi arwain at newidiadau polisi yng Nghymru a chenhedloedd eraill y DU, megis sefydlu Grŵp Cynghori Moesol a Moesegol Llywodraeth Cymru.

Fel yr amlygwyd uchod, rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i adolygu penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'r effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar hawliau pobl hŷn yn ystod y pandemig.

Byddaf yn adeiladu ar y partneriaethau hyn yn ystod 2021-22 i fonitro a chraffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau'r llywodraeth wrth i ni symud tuag at adferiad, ac i ysgogi newid i bobl hŷn, yng Nghymru a ledled y DU.

## Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus

Rwyf wedi ymgysylltu ac wedi gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill drwy gydol y pandemig, ond nid wyf wedi oedi rhag eu dwyn i gyfrif pan roeddwn i'n teimlo nad oedd eu gweithredoedd yn ddigonol i ddiogelu pobl hŷn, gan godi pryderon yn gyhoeddus pan oedd angen i sicrhau newid a gweithredu gwelliannau.

Roeddwn yn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bob wythnos i godi pryderon pobl hŷn, i dynnu sylw at fannau ble mae hawliau pobl hŷn o dan fygythiad o bosibl, i gynnig, a gweithredu ar feysydd gweithredu; ac i weithio i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyfarwyddiadau diweddaraf yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i bobl hŷn. Ochr yn ochr â hyn, cefais gyfarfodydd hefyd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i amddiffyn a chefnogi pobl hŷn ar draws nifer o feysydd allweddol.

Rwyf wedi cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau allweddol eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau nad yw'r camau y maent yn eu cymryd yn eithrio pobl hŷn ac yn adlewyrchu eu hanghenion.

Ar ben hynny, mae aelodau o'm tîm wedi cymryd rhan mewn ystod eang o fyrddau cynghori a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r pandemig a materion ehangach i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u deall, a'u bod yn cael eu defnyddio i lunio polisi ac ymarfer. Sef:

- Is-grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol Covid-19 Llywodraeth Cymru
- Cyngor Partneriaeth Cymdeithasol Cysgodol Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Sefydlogi ac Ad-drefnu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- Fforwm Rhanddeiliaid Rhaglen Brechiadau Covid-19 Llywodraeth Cymru
- Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Rhaglen Cynhwysedd Digidol Llywodraeth Cymru
- Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru
- Grŵp Manteisio ar Gredyd Pensiwn Llywodraeth Cymru a'r grŵp Pwyslais ar Incwm
- Grŵp Cynghori Unigrwydd ac Arwahanrwydd Llywodraeth Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol
- Grŵp Rhanddeiliaid Ymweld â Chartref Gofal Arolygiaeth Gofal Cymru
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr
- Cynghrair Cymunedau Digidol Cymru

Ym mis Tachwedd 2020, gweithiais gydag Aelodau'r Senedd i sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bontio'r Cenedlaethau, sy'n dwyn ynghyd wleidyddion, ymchwilwyr academaidd allweddol, ymarferwyr sydd â phrofiad o gynnal prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chynrychiolwyr pobl hŷn ac iau, i gefnogi camau gweithredu i gryfhau'r cysylltiad rhwng cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. Bydd y grŵp yn gweithio i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth nesaf Cymru ar draws pedwar maes blaenoriaeth: mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd; cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes; mynd i'r afael ag oedraniaeth; a sgiliau a'r economi.

Byddaf yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â monitro, craffu a dylanwadu ar y camau a'r penderfyniadau a wnaiff, i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt, ac nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl wrth i Gymru symud tuag at ei hadferiad.

**Byddaf yn adeiladu ar y partneriaethau hyn yn ystod 2021-22 i fonitro a chraffu ar gamau gweithredu a phenderfyniadau'r llywodraeth wrth i ni symud tuag at adferiad, ac i ysgogi newid i bobl hŷn, yng Nghymru a ledled y DU**

# Edrych ymlaen

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bobl hŷn ledled Cymru, ac wedi tanlinellu'r angen am wahanol fathau o weithredu i gefnogi adferiad pobl hŷn a sicrhau newidiadau tymor-hirach i wella eu bywydau, fel sydd wedi ei nodi yn fy adroddiad 'Gadael Neb ar Ôl' a Maniffesto Etholiad Senedd 2021.

Gan chwarae fy rhan i ddatblygu ac i sicrhau'r newidiadau i bobl hŷn, byddaf yn mynd â rhaglen waith helaeth yn ei blaen yn ystod 2021-22, sy'n canolbwyntio ar fy nhair prif flaenoriaeth, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn:

## Rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn

- Gwella gwasanaethau cefnogi i bobl sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer cyrff cyhoeddus.
- Arwain gwaith partneriaeth gyda'r Grŵp Atal Cam-drin, gan gynnwys:
  - Dylanwadu ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i atal cam-drin ymhlith pobl hŷn.
  - Gweithio i arfogi a galluogi pobl hŷn i rannu eu profiadau.
  - Ymchwilio i brofiadau dynion hŷn sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o hynny.
  - Datblygu gwaith ar bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr y mae cam-drin yn effeithio arnynt

## Galluogi pawb i heneiddio'n dda

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth i ail-adeiladu, neu adfer eu hiechyd a'u lles, wrth i ni ddod drwy'r pandemig.
- Arwain gwaith gyda'm partneriaid ledled Cymru i sicrhau bod cymunedau yn fwy oed-gyfeillgar, gan gynnwys cefnogi awdurdodau lleol i wneud cais i Sefydliad Iechyd y Byd am gydnabyddiaeth ar gyfer cymunedau oed-gyfeillgar.
- Hyrwyddo cynhwysiant digidol ymhlith pobl hŷn, hyrwyddo arfer da a chyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt.

## Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed

- Hyfforddiant i bobl hŷn ac i weithwyr proffesiynol i'w galluogi i adnabod ac i herio oedraniaeth.
- Herio esiamplau o oedraniaeth a gwahaniaeth ar sail oed, gan gynnwys y ffordd y caiff pobl hŷn eu portreadu gan y cyfryngau.
- Gan weithio gyda phartneriaid - yn cynnwys partneriaid rhyngwladol - mynd i'r afael ag agweddau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran mewn cymdeithas a hyrwyddo pontio'r cenedlaethau.

## Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

- Gweithredu gyda phartneriaid yng Nghymru a ledled y DU i wella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal
- Mynd i'r afael â'r diffyg tystiolaeth o faterion penodol a wynebir gan bobl hŷn mewn cymunedau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig trwy wneud gwaith ymchwil a chynnig argymhellion i'w gweithredu
- Trin a thrafod sut gellid gwella proses ac ymarfer Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw er mwyn i bobl hŷn deimlo eu bod yn rhan o'r penderfyniadau am eu hanghenion gofal iechyd yn y dyfodol, a bod eu dymuniadau'n cael eu cydnabod a'u parchu.
- Parhau i weithio gyda rhwydwaith y DU o sefydliadau partner allweddol a sefydlwyd gennyf yn 2020 i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, a chyflawni newidiadau gyda'n gilydd.

Ochr yn ochr â hyn, byddaf yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth uniongyrchol i bobl hŷn trwy fy nhîm gwaith achos, monitro a chraffu gweithrediadau a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar lefel cenedlaethol a lleol.

Bydd ymgysylltu â phobl hŷn yn parhau fel ffocws allweddol i mi a'm tîm yn ystod 2021-22 i sicrhau bod eu lleisiau, eu syniadau a'u profiadau yn arwain fy ngwaith.

**Gan chwarae fy rhan i ddatblygu ac i sicrhau'r newidiadau i bobl hŷn, byddaf yn mynd â rhaglen waith helaeth yn ei blaen yn ystod 2021-22, sy'n canolbwyntio ar fy nhair prif flaenoriaeth, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn**



# Adolygiad o Falans y Cronfeydd wrth Gefn 2020-21

Rwyf yn cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ond yn gweithredu'n annibynnol arnynt, ac rwyf yn atebol i'r Prif Weinidog o ran defnyddio'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael i mi.

Roedd y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos mai'r gwariant net ar gyfer 2020-21 yw £1,470,000 (2019-20: £1,540,000).

Yn 2020-21, cefais gyllid o £1,482,000 (2019-20: £1,608,000).

Y flwyddyn ariannol hon gofynnais i Lywodraeth Cymru am gael tynnu £1,482,000, oedd £107,000 yn llai na'r £1,589,000 y gofynnwyd amdano'n wreiddiol yn fy Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2020-21 ac a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ym mis Ionawr 2020. Mae'r amrywiant hwn wedi digwydd am y rhesymau canlynol:

- Arbedion ar gostau staff: oherwydd natur eithriadol y flwyddyn, mae swydd wag hirdymor ar gael yn fy strwythur sefydliadol, yr wyf wedi recriwtio ar ei chyfer yn ddiweddar. Yn ogystal â'r swydd wag hon, bu swyddi gwag eraill am gyfnodau byr drwy gydol y flwyddyn, sydd wedi arwain at arbedion ychwanegol ar gostau staff.
- Rhaglen Arbedion ar Waith: fe wnaeth pandemig COVID-19 yn ystod 2020-21 fy ngalluogi i symud ffocws fy ngwaith yn sylweddol oddi wrth waith ymchwil a chyhoeddi a hyrwyddo canfyddiadau ac arweiniad i weithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid allweddol a dylanwadu arnynt a chraffu ar eu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r newid ffocws hwn wedi arwain at ostyngiad mewn meysydd gwariant traddodiadol megis comisiynu ymchwil; costau uniongyrchol megis teithio, cyfieithu, argraffu a dosbarthu; a chostau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau lle rwy'n ymgysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Ar gyfer 2021-22, rwyf wedi cynllunio rhaglen waith a fydd yn defnyddio'r gyllideb y gofynnais amdani yn fy Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2021-22 a rhan sylweddol o'm cronfeydd wrth gefn/balans arian parod hanesyddol.

Roedd £312,000 yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2020: £300,000). Fodd bynnag, mae'r symiau hyn yn cynnwys arian parod, rhagdaliadau (symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill), symiau sy'n ddyledus i gredydwyr (symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill) a darpariaethau. I ddeall gwerth gwirioneddol y gronfa wrth gefn, dylid ystyried y trafodion canlynol er mwyn sefydlu beth yw'r swm effeithiol o'r gronfa sydd ar gael:

| | | Taliadau i gredydwyr | Dibrisiant a rhagdaliadau | Balans sy'n weddill |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau anghyfredol** | 21 | - | (21) | 0 |
| **Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill** | 54 | - | (54) | 0 |
| **Arian parod** | 398 | (161) | - | 237 |
| **Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill** | (72) | 72 | - | 0 |
| **Darpariaethau a chredydwyr gohiriedig** | (89) | 89 | - | 0 |
| **Cronfeydd wrth gefn** | 312 | 0 | (75) | 237 |

Felly, roedd y cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael ar 31 Mawrth 2021 yn £237,000.

Mae'n hollbwysig ystyried y lefel sylfaenol o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn hytrach na'r cronfeydd wrth gefn statudol oherwydd hwn yw'r swm gwirioneddol sydd ar gael i mi i ymateb i unrhyw faterion brys.

Mae'r cronfeydd wrth gefn hefyd wedi fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol a pharhau i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth. Felly, mae gallu cynnal a rheoli fy nghronfeydd wrth gefn wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau fy annibyniaeth.

Yn 2020, cynigiodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Ariannol newydd y bydd yn ofynnol i bob Comisiynydd weithredu yn unol ag ef. Canlyniad mwyaf arwyddocaol y Fframwaith hwn yw y bydd yn dileu fy ngallu i gadw a rheoli balans wrth gefn, sy'n achosi risg sylweddol i'm hannibyniaeth.

Mae cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i mi weithredu ar unrhyw faterion heb eu cynllunio, brys a phwysig sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn ac sy'n cyd-fynd â'm dyletswyddau statudol. Mae'n bur debyg y bydd costau ychwanegol o'r fath yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol, ond maent yn anodd iawn eu mesur.

Yn y dyfodol, o ran ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad statudol gyda chyllid ychwanegol, bydd angen i mi ofyn am yr arian ychwanegol hwn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae potensial gwrthdaro buddiannau wrth gyflwyno'r cais hwn am gyllid gan y gallai'r adolygiad statudol fod yn rhan o weithredoedd y Gweinidog a fyddai'n awdurdodi'r gyllideb ychwanegol.

Felly, rwy'n croesawu cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fydd yn sicrhau bod y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau yn achos cais am arian ychwanegol yn cael ei leihau.

Mae fy Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn 2021-22 wedi'i diweddaru i adlewyrchu mai dim ond yn ystod y flwyddyn y byddaf yn defnyddio'r adnoddau y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u dyrannu i mi i sicrhau fy mod yn cyflawni fy nyletswyddau statudol yn llwyddiannus.

Cyflwynais fy Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2021-22 i Weinidogion ym mis Hydref 2020.

Dolen i'r wefan: [Amcangyfrif y Comisiynydd]

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

22 Gorffennaf 2021



# Dadansoddiad o'r taliadau



# Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Gan fod 2020-21 yn flwyddyn ddigynsail, bydd adrodd ar y camau a gymerwyd o dan y polisi cynaliadwyedd yn adlewyrchu bod fy staff wedi gweithio gartref ers 17 Mawrth 2020.

Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, caewyd y swyddfa ac roedd yr holl staff yn gweithio gartref ac yn cynnal pob cyfarfod gan ddefnyddio platfformau rhithwir. Roedd hyn yn golygu nad oedd staff yn teithio i'r swyddfa nac yn defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth ar gyfer cyfarfodydd, sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol o ran ôl troed carbon.


Bu gostyngiad dramatig yn nifer y gwastraff sy'n cael ei waredu o'r swyddfa, yn sgil y niferoedd bach o staff sy'n defnyddio'r swyddfa am gyfnodau byr, yn ogystal ag o ran faint o bapur sydd wedi'i anfon i'w ailgylchu, gan fod yr holl staff yn gweithio mewn ffordd fwy di-bapur. Ychydig iawn o ynni a ddefnyddiwyd hefyd gan nad yw cyfrifiaduron a goleuadau yn y swyddfa wedi cael eu defnyddio'n sylweddol.

Gwelwyd manteision amgylcheddol cadarnhaol amlwg o weithio mewn ffordd wahanol yn 2020-21, y byddwn yn eu datblygu yn y dyfodol. Felly, bydd y polisi cynaliadwyedd yn cael ei adolygu yn 2021 a'i ddiweddaru i adlewyrchu gwahanol arferion gwaith megis aelodau o staff sy'n gweithio mewn ffordd hybrid.

Isod ceir uchafbwyntiau i'w nodi:

- **Defnyddio ynni –** fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach, nid yw'n bosibl bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr a gwres. Fodd bynnag, yn fy swyddfa i mae falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau golau LED sy'n arbed ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau.

- Er y bu gostyngiad sylweddol o ran faint o drydan a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae swm gweddilliol o drydan wedi'i ddefnyddio o hyd. Gellir priodoli'r lefel a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn bennaf i'r ynni sydd ei angen i gynnal fy Seilwaith TG.





- Mae'r graff yn dangos defnydd trydan dros y pedair blynedd diwethaf, sy'n dangos gostyngiad o un flwyddyn i'r llall, gyda gostyngiad o 62% rhwng 2017 a 2021.

- Yn 2020, fe wnes sicrhau tariff ynni gwyrdd o 100% i gyflenwi trydan fy swyddfa. Rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio dim ond tariffau ynni sy'n dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn unig.

- **Allyriadau carbon** – I gydnabod yr effaith negyddol y mae allyriadau carbon yn parhau i'w chael ar y blaned, eleni, fe wnes gyfateb fy rhodd ar gyfer 2019-20 i wrthbwyso allyriadau carbon. Caiff yr arian ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau ledled y byd sy'n lleihau allyriadau carbon drwy fesurau osgoi a chynhyrchu ynni glân/adnewyddadwy.

- **Gwaredu Gwastraff** – Rwyf wedi cael gwared â'r holl finiau wrth ddesgiau er mwyn annog staff i ailgylchu cymaint â phosibl ac mae mannau ailgylchu




o gwmpas y swyddfa. Mae'r graff yn dangos gostyngiad clir yn nifer y papur a ddefnyddiwyd ac felly a ailgylchwyd dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod 2020-21, mae fy staff wedi gweithio gartref yn bennaf, felly ni allaf ddangos yn ddibynadwy faint o bapur sydd wedi'i waredu neu ei ailgylchu yn ystod 2020-21.

- **Cynnyrch** – Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi'u hailgylchu. Defnyddir cynnyrch glanhau sy'n ecogyfeillgar i lanhau'r swyddfa.

- **Addysg** – rwyf wedi ymroi i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol i aelodau staff am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut gall gweithwyr gyfrannu yn ystod oriau gwaith a drwy eu bywydau y tu allan i'r gweithle.

- **Caffael** – Mae fy mholisi caffael yn cynnwys egwyddorion prynu sy'n nodi bod rhaid i unigolion, pan fyddant yn archebu nwyddau a gwasanaethau, wneud y canlynol: ystyried Gwerth am Arian fel cyfuniad delfrydol o gostau oes gyfan – o ran creu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, yn ogystal â budd.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

22 Gorffennaf 2021




# Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad.

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion am Dîm Rheoli Busnes a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a sut rwy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â rheolaeth gorfforaethol dda.
- Mae fy Adroddiad ar Staff a Thaliadau yn rhoi gwybodaeth am daliadau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion cyflogaeth eraill.
- Mae'r Adroddiad Archwilio yn cynnwys barn archwilio derfynol am y datganiadau ariannol gan ein harchwilydd.

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

## Gweithio yn Swyddfa'r Comisiynydd

Yn ystod 2020-21, roeddwn i'n cyflogi 20.29 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (20.60 yn 2019-20). Roedd y Tîm Rheoli Busnes a oedd yn gweithio gyda mi yn ystod 2020-21 yn cynnwys y canlynol:

Kelly Davies
Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd

Katie Holliday
Pennaeth Cyllid ac Adnoddau

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol. Yn 2020-21, roedd y pwyllgor yn cynnwys pum aelod annibynnol. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, maent hefyd yn ystyried fy nhrefniadau ar gyfer rheoli ac adrodd ac yn cadw golwg feirniadol ar fy ngweithdrefn rheoli risg a rheolaeth ariannol.

Dyma aelodau cyfredol y Pwyllgor Archwilio:

### Steve Harford (Cadeirydd)



Treuliodd Steve y 18 mlynedd diwethaf o'i yrfa gyda Gyrfa Cymru ac mae wedi ymddeol o'i rôl fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Yn ystod ei gyfnod gyda Gyrfa Cymru, bu'n cynghori ac yn arwain y gwaith o uno'r chwe Chwmni Gyrfa lleol blaenorol i greu un sefydliad ar draws Cymru gyfan. Wedyn, bu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drosglwyddo perchnogaeth Gyrfa Cymru i fod yn is-gorff ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

Mae Steve yn Gyfarwyddwr/Ymddiriedolwr Carers Trust De-ddwyrain Cymru, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae hefyd wedi'i benodi yn aelod o Fwrdd Pensiynau Lleol Cronfa Bensiynau Gwent Fwyaf (Torfaen).

### Claire Bevan



Mae Claire yn Nyrs Gyffredinol Gofrestredig gyda 38 mlynedd o brofiad, ar ôl ymddeol fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac Ansawdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Mae ganddi brofiad helaeth o weithio ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn GIG Cymru mewn rolau arwain a rheoli proffesiynol uwch.

Mae ei thaith bersonol dros y blynyddoedd diwethaf fel gofalwr i aelod o'i theulu sy'n byw gyda hi, gyda chlefyd Alzheimer, wedi ei harwain i eirioli dros bobl hŷn a gofalwyr.

### Phil Davy



Roedd Phil yn Bennaeth Datblygiad Economaidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am 10 mlynedd, yn rheoli maes gwasanaeth a

oedd yn cynnwys datblygu busnes, twristiaeth, ac adfywio. Ar ôl 43 mlynedd ym maes gwasanaeth llywodraeth leol, fe wnaeth Phil ymddeol o waith amser llawn.

Mae Phil wedi bod mewn sawl rôl cyfarwyddwr anweithredol gyda Gyrfa Cymru, Groundwork Caerffili a Cymorth Cynllunio Cymru.

### Julia Evans



Enillodd Julia gymhwyster Sefydliad Siartredig y Gymdeithas Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 1987 a bu'n gweithio yn y sector cyllid cyhoeddus am 35 mlynedd – yn gyntaf fel archwilydd allanol am 20 mlynedd, cyn symud i faes cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus.

Julia oedd Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) ym mis Ionawr 2014. Cafodd CyngACC ei ailstrwythuro a chafodd ei ailenwi'n Gyngor y Gweithlu Addysg ym mis Ebrill 2015. Fe wnaeth Julia barhau yn ei swydd fel Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, AD a Gwasanaethau Corfforaethol) nes iddi ymddeol o'r swydd honno ym mis Rhagfyr 2018.

### David Powell FCPFA



Mae gan David brofiad helaeth yn y sector cyhoeddus ar ôl gweithio mewn Cynghorau Unedol, Sirol a Dosbarth yng Nghymru a Lloegr. Am dros 10 mlynedd bu'n Gyfarwyddwr Cyllid ac mae hefyd wedi arwain amryw o feysydd gwasanaeth a chorfforaethol. O 2013 tan iddo adael llywodraeth leol yn 2019 roedd yn gweithio i Gyngor Sir Powys mewn rolau oedd yn cynnwys Cyfarwyddwr Adnoddau Strategol, Prif Weithredwr dros dro a dirprwy Brif Weithredwr.

Cafodd gwybodaeth am y materion sy'n wynebu pobl hŷn ei meithrin o weithio mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac fel Aelod o Fwrdd Sefydliad Elusennol yn y sector gofal pobl hŷn. Ar ben hynny, mae ganddo sawl blwyddyn o brofiad fel Cyfarwyddwr Anweithredol gan gynnwys bod yn gyn Gadeirydd Cymdeithas Dai Two Rivers yn Swydd Gaerloyw lle'r oedd gwasanaethau i bobl hŷn yn flaenoriaeth allweddol.



# Adrodd Corfforaethol

## Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod yr wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiad a geir ynddi yn wir gan fwyaf.

Prif nod y Comisiynydd yw gwarchod lles y cyhoedd. Nid oes yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried p'un ai a yw datgeliad yn gymwys i gael ei amddiffyn dan y Ddeddf, ac ni fydd yn gallu cynnig cyngor ar hyn. Yn y pen draw, tribiwnlys cyflogaeth fyddai'n penderfynu p'un ai a gaiff unigolyn ei amddiffyn dan y Ddeddf ai peidio. Rôl y Comisiynydd yw ystyried y materion a ddatgelir iddo.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, oherwydd mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o ganlyniad i fy rôl fel 'person rhagnodedig' yn ystod 2020-21 (2019-20: dim).

## Yr iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2020-21, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Rwyf wedi parhau i gymryd pob cam posibl i hyrwyddo'r Gymraeg drwy sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hanes y Gymraeg, cyflogi nifer o staff dwyieithog, darparu gwasanaeth gwaith achos dwyieithog i bobl hŷn, darparu gwersi Cymraeg i bob aelod o staff yn ystod amser gwaith, a gweithredu amgylchedd gweithio dwyieithog.

Dolen i'r wefan: [Safonau'r Gymraeg]

## Cynllun cydraddoldeb strategol

Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu pam mae diogelu hawliau pobl hŷn yn hanfodol, a pha mor hawdd y gellir erydu hawliau pobl. Mae'r pandemig wedi rhoi ffocws craff i'r anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu bob dydd, yn enwedig pobl o gymunedau BAME, ac mae'r misoedd diwethaf wedi dangos bod oedraniaeth yn parhau'n gyffredin ar draws cymdeithas heddiw, er ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei oedran.

Ni ddylai hawliau leihau wrth i bobl heneiddio. Fodd bynnag, mae llawer o bobl hŷn yn gweld nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal ac na wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn yn ganolog i'm rôl fel Comisiynydd. Fel llais a hyrwyddwr annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru, rwy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywydau pobl hŷn. Mae gennyf rôl unigryw i'w chwarae o ran mynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu o bob math, a sicrhau bod eraill yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â mi.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn

awdurdod rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r swyddfa ddilyn yr hyn a elwir yn 'ddyletswyddau cyffredinol' i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i gefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn ac i wneud ymdrech i ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth y mae'r Comisiynydd yn ei wneud. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i mi hefyd ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys Amcanion Cydraddoldeb y bydd yn rhaid i mi eu cyflawni mewn cylchoedd pedair blynedd.

Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2020, es ati i gasglu barn pobl hŷn a phobl eraill ar fy Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2020-24. Cafodd yr adborth ei adolygu ac fe gytunwyd ar yr amcanion terfynol, a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2020. Oherwydd pandemig Covid-19, gohiriwyd cyhoeddi fy Nghynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24. Mae'r amcanion wedi cael eu hadolygu ymhellach a chyhoeddwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru ym mis Hydref 2020.

Dolen i'r wefan: Cynllun Cydraddoldeb

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

## Polisi Taliadau

Rwyf yn ceisio cydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y targed yw gwneud taliadau yn unol â thelerau talu y cytunwyd arnynt, neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 98.23% wedi'u talu ar amser (99.07% yn 2019-20). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

## Gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn ac, yn ystod y flwyddyn, rydw i wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae trefniadau ar waith i warchod diogelwch gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2020-21, cafwyd un digwyddiad diogelu data (2019-20: dim), nad oedd angen ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yn ystod 2020-21, daeth pum cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i law (2019-20: 5). Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Ni ddaeth unrhyw Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, i law (2019-20: 3). Ymatebwyd i bob cais yn 2019-20 o fewn yr amserlenni penodol.

## Technoleg Gwybodaeth

Mae fy systemau TG wedi cael eu dilysu'n annibynnol yn 2020-21, ac mae arbenigwyr TG wedi fy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun Cyber Essentials Plus, sef cynllun ardystio seiberddiogelwch a gefnogir gan y llywodraeth sy'n nodi sylfaen dda ar gyfer seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bum rheolaeth sy'n gallu atal tua 80% o ymosodiadau seiber, os ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gywir.

## Cofrestri

Rwyf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun, yn rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan, ar fy ngwefan bob chwarter. Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol gan fod y treuliau a hawliwyd wedi bod yn £0, ond mae fy hawliadau treuliau hanesyddol ar gael ar y wefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu fy nhreuliau ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Treuliau'r Comisiynydd

Rwyf yn cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r treuliau hyn ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl gyflogeion ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â fy niwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i gyflogeion ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod pob cyflogai ac aelod o'm Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro buddiannau, drwy gofrestru a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a gwaith y Comisiynydd wrth iddynt godi.

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgorau ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Buddiannau

## Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2020-21 nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Busnes Strategol, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12 Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2020-21 yw £14,000 (£14,000 yn 2019-20).

Daeth y contract presennol â Deloitte ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol i ben ar 31 Mawrth 2021. Yn dilyn proses gaffael, ar y cyd â swyddfeydd eraill y Comisiynydd. Llwyddodd TIAA Ltd i ennill y contract i ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol am y tair blynedd nesaf gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
22 Gorffennaf 2021

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Paratoir y cyfrifon er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, y llifoedd arian a'r newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'r adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Prif Weinidog wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros asedau'r Comisiynydd, fel y'u nodir yn y memorandwm 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru,

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth hon. Cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



# Datganiad Llywodraethu

## Cyfrifoldebau

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma ddyletswyddau statudol y rôl:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;
- hyrwyddo darpariaeth cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru;
- cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn dal cyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo er mwyn i unrhyw aelod o staff weithredu fy swyddogaethau. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y byddai gan gyrff cyhoeddus eraill, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo sydd yn rhoi sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei Lywodraethu, gan gynnwys priodoldeb a chysondeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Yr wyf yn atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gallu craffu ar y cyfrifon a pha mor effeithlon ac effeithiol rwyf yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir imi ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad a reolir yn dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- sicrhau cywirdeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'm dyletswyddau statudol; a
- sicrhau fy mod yn rhagweithiol o ran nodi a gwerthuso risg a fy mod yn rheoli risg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i gynnal y risgiau sy'n wynebu'r Comisiynydd yn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y strategaeth Rheoli Risg. Mae'r rheolaethau hefyd wedi cael eu dylunio i adlewyrchu fy archwaeth am risg.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu

integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu.

## Fframwaith llywodraethu

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Kelly Davies, y Prif Swyddog Gweithredu, yw fy Nirprwy enwebedig. Mae cynllun dirprwyo ariannol ar gael yn fy 'Nhrefniadau Archebu Nwyddau a Gwasanaethau'. Mae hwn hefyd ar gael ar fy ngwefan.

Roedd fy fframwaith llywodraethu yn 2020-21 yn cynnwys tair prif elfen o sicrwydd, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Rhaglen archwilio fewnol
- Tîm Rheoli Busnes

Mae'r tair prif ffynhonnell o sicrwydd yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl gyflogeion ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â fy niwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i gyflogeion ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys rheolaeth fewnol, a systemau pennu a rheoli risgiau. Gyda sicrwydd ychwanegol gan yr archwilwyr mewnol (Deloitte LLP) ac archwilio allanol (Archwilio Cymru).

Mae fy Nhîm Rheoli Busnes a minnau'n rhoi gwybodaeth berthnasol, amserol a chywir i'r Pwyllgor.

### Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau gwell tryloywder i'n trefniadau llywodraethu.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, anfonir papurau gofynnol i aelodau, gan nodi eitemau oddi ar yr agenda chwe diwrnod gwaith cyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar amrywiaeth o eitemau, gan gynnwys:

- Cofrestr Risg Strategol
- Adroddiadau Llywodraethu chwarterol y Comisiynydd
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer 2021/22, gan gynnwys cynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd
- Polisïau allweddol y Comisiynydd, gan gynnwys Gwrth-dwyll a Gwyngalchu Arian a Pholisi Chwythu'r Chwiban
- Cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol a mewnol



### Aelodaeth

Rwy'n penodi aelodau'r Pwyllgor am dymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am uchafswm o bedair blynedd. Yn 2020-21, mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol gyda phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn roedd ei aelodaeth fel a ganlyn:

- Steve Harford (Cadeirydd) – cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Gyrfa Cymru. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2016; cafodd ei benodi'n Gadeirydd ar 1 Ebrill 2017.
- Claire Bevan – cyn Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac Ansawdd yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2020.
- Phil Davy – cyn Bennaeth Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerffili. Dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2017
- Julia Evans – cyn Ddirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol) Cyngor y Gweithlu Addysg. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 2 Ionawr 2019.
- David Powell – cyn Ddirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys. Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 1 Ebrill 2020.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd cyfnod Steve Harford ei ymestyn am flwyddyn, er mwyn ei alluogi i dreulio tymor llawn fel Cadeirydd. Bwriad yr estyniad hwn oedd rhoi parhad i'r Pwyllgor tra ymunodd dau Aelod newydd, Claire Bevan a David Powell, ym mis Ebrill 2020. Ar ben hynny, i gydnabod lefel uwch y Comisiynydd o risg strategol, oherwydd pandemig Covid-19, ac i roi sefydlogrwydd a pharhad i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod digynsail hwn, mae telerau Steve Harford a Phil Davy wedi cael eu hymestyn flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022.

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da. Y Cadeirydd yw fy Aelod Pwyllgor sydd wedi gwasanaethu hiraf ac, hyd at fis Mawrth 2021, mae wedi gwasanaethu am gyfnod o bum mlynedd.

## Ymrwymiad y pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ffurfiol bob chwarter ac mae presenoldeb yn ystod 2020-21 wedi bod dros y we, ac mae papurau wedi cael eu dosbarthu'n electronig. Crynhoir presenoldeb yn y cyfarfodydd isod:

| | Mai 2020 | Gorffenaf 2020 | Hydref 2020 | Chwefror 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Steve Harford (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Clare Bevan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Phil Davy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Julia Evans | ✓ | ✓ | X | ✓ |
| Dave Powell | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Yn ystod 2020-21, rhoddodd dau aelod o'r Pwyllgor gymorth annibynnol i mi y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Yn ystod y flwyddyn eithriadol hon, gwahoddais y Pwyllgor i gyfarfod yn anffurfiol, bob chwarter, yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i mi ddefnyddio arbenigedd amrywiol y Pwyllgorau ymhellach yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risg. Roedd y cyfarfodydd hefyd yn rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor er mwyn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

I gydnabod y cyfnod hwn o risg uwch, mae aelodau'r Pwyllgor wedi cael eu diweddaru mewn amser real, drwy e-bost, ynghylch unrhyw faterion sy'n codi.

## Adolygiad y Pwyllgor o effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol, o ganlyniad i'r cyfarfod sydd gan y Pwyllgor gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol a lefel sicrwydd yr adroddiadau a gafwyd gan yr archwilwyr, y gall roi sicrwydd i mi nad oes gan yr un tîm archwilio unrhyw bryder ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan y Comisiynydd.

O ganlyniad i'w waith yn 2020-21, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor yn arfarnu ei effeithiolrwydd a'i weithrediadau ei hun bob blwyddyn. Fe gynhaliodd y Cadeirydd arfarniad gyda'r aelodau eraill o'r Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad blynyddol gyda'r Cadeirydd. Yn dilyn y trafodaethau hyn daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan nodi bod y Comisiynydd a'r Cadeirydd yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu rhoi sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol.

Yn ogystal ag adolygu ei berfformiad ei hun, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyhoeddi datganiad ffurfiol bob blwyddyn sy'n nodi i ba raddau y mae'n fodlon â lefel fy rheolaeth ariannol yn gyffredinol, yn ogystal â phrosesau llywodraethu corfforaethol, adnabod risgiau a rheoli yn ehangach.

Ar gyfer 2020-21, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi bod yn gweithredu'n effeithiol.

Yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheoli mewnol a fy mlaenoriaethau strategol ehangach.

Dolen i'r wefan: [Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg]

## Archwilio mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae'r sicrwydd mae archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn sicrwydd allweddol sy'n ofynnol gennyf i a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Proffil Risg Strategol yn sail i ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu'r dystiolaeth mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Deloitte LLP sy'n darparu fy ngwasanaeth archwilio mewnol. Yn ystod 2020-21, fe wnaeth Deloitte adolygu:

- Systemau ariannol, gan gynnwys Rheoli Cyllidebau, Asedau Sefydlog, Prynu a Thaliadau a Threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Llywodraethu Corfforaethol
- Rheoli Risg

Rhoddwyd sicrwydd sylweddol i fy archwilwyr mewnol ynglŷn â'r holl feysydd a adolygwyd, ac ni wnaed unrhyw argymhellion. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i sicrhau fy mod yn monitro systemau mewnol yn gyson ac yn ceisio eu gwella'n barhaus.

Daeth adroddiad blynyddol Deloitte i'r casgliad y gallant 'roi sicrwydd sylweddol i'r Comisiynydd ynglŷn â threfniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.'

## Tîm Rheoli Busnes

Rwy'n gweithio gyda fy Nhîm Rheoli Busnes a oedd yn arfer cwrdd yn ffurfiol bob mis. Roedd y Tîm Rheoli Busnes yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd, Kelly Davies, a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, Katie Holliday.

Fel grŵp, mae'r Tîm Rheoli Busnes yn cyfrannu at y canlynol:

- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd;
- datblygu fy nodau strategol a'm Cynllun Busnes blynyddol;
- dyrannu adnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny; ac
- yr asesiad cyffredinol o berfformiad parhaus y sefydliad

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

Mae'r Tîm Rheoli Busnes yn adolygu ei arferion gwaith a'i effeithiolrwydd parhaus yn gyson. Ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Tîm Rheoli Busnes, adlewyrchir ar yr agenda, ansawdd y papurau ac ansawdd y drafodaeth a chymerir camau i'w gwella

## Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol. Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion a amlinellir yn nogfen Llywodraeth EM, Rheoli Egwyddorion Risg a Chysyniadau (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren. Mae fy Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond caiff risgiau eu cydnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi er fy mod yn atebol am bob risg, mae gan yr holl staff rôl i adnabod risgiau posibl newydd a defnyddio'r camau lliniaru priodol i leihau neu ddileu risg. Caiff y Strategaeth ei hadolygu bob blwyddyn ac fe gafodd ei hadolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2021.

Mae modd gweld y Llyfr Oren yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/815635/Orange_Book_Management_of_Risk.pdf

A positive approach to risk management Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu nad wyf yn amharod i gymryd risgiau a reolir, i gyflawni'r blaenoriaethau yn fy nghynllun strategol. Byddaf nid yn unig yn ystyried y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio ag elwa ar gyfleoedd o'r fath. I'r gwrthwyneb, ni fyddaf yn goddef lefel uchel o risg a fyddai'n arwain at fethu â chydymffurfio â gofynion llywodraethu, dyletswyddau statudol a gofynion cyfreithiol.

Caiff y Gofrestr Risg Strategol ei hystyried wrth nodi blaenoriaethau'r sefydliad, gan gynnwys llunio cynllun Amcangyfrif blynyddol a Chynllun Busnes. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn mynd i'r afael â sut byddant yn fy helpu i a'm Tîm Rheoli Busnes i reoli risgiau sylweddol.

Ar gyfer y risgiau strategol rwyf wedi'u nodi, mae archwiliad mewnol wedi gwerthuso effeithiolrwydd yr ymatebion rheoli risg a'r rheolaethau presennol, ac wedi rhoi sicrwydd sylweddol.

Mae fy Nghofrestr Risg Strategol yn parhau i adlewyrchu'r risgiau a'r heriau sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Mae achos, effaith, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â risgiau yn y gofrestr risgiau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol bob mis gan y Tîm Rheoli Busnes, i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i

addasu i’r amgylchedd sy’n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael eu rheoli a’r risgiau posibl yn y dyfodol yn cael eu nodi, a bod camau lliniaru’n cael eu rhoi ar waith.

Mae’r risgiau hyn hefyd yn cael eu hadolygu’n ffurfiol yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg chwarterol.

Mae’r Pwyllgor yn cael gwybod mewn amser real os bydd unrhyw risg yn cael ei huwchgyfeirio i’r Gofrestr Risg Strategol.

## Effaith risg Covid-19 ar y Comisiynydd

Mae effaith gronnus y risgiau sy’n gysylltiedig â phandemig Covid-19 wedi arwain at risg weddilliol strategol y sefydliad yn sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Er nad yw’r gofrestr risgiau strategol yn nodi Covid-19 yn benodol fel risg, roedd effeithiau’r pandemig yn sail i’r holl risgiau strategol ac roedd yn cael ei adlewyrchu yn y rheolaethau lliniaru a’r camau gweithredu arfaethedig.

Cafodd y pandemig effaith arwyddocaol ar fy ngwaith gweithredol a strategol, ac arweiniodd at adolygiad ac ailstrwythuro’r Gofrestr Risg Strategol. Roedd yr ailstrwythuro hwn yn sicrhau bod Parhad Busnes ac effeithiolrwydd staff yn dod yn brif ffocws y Gofrestr Risg Strategol.

Ym mis Ionawr 2021, cafodd y gofrestr ei hailstrwythuro eto i gydnabod fy rheolyddion gweithio o bell, a’r systemau a’r prosesau’n cael eu gwreiddio’n gadarn yn arferion gweithio’r sefydliad.

## Codi Pryderon

Mae fy mholisi Codi Pryderon yn nodi sut gall staff chwythu’r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle.

Os bydd fy staff neu eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy’n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion. Cyfeirir unrhyw faterion sy’n ymwneud â rôl y Comisiynydd at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Yn ystod 2020-21, ni ddaethpwyd â’r un pryder i’m sylw i na Chadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon (2019-20: dim).

Yn ystod 2020-21, daeth dwy gŵyn ffurfiol allanol i law o dan y Polisi Cwynion. Un ohonynt gafodd ei chadarnhau (2019-20: 2). Yn dilyn y gŵyn a gadarnhawyd, rwyf ers hynny wedi adolygu a gwella ein harferion gweithio.

## Adolygu Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i reoli adnoddau cyhoeddus yn briodol ac, o ganlyniad, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Rheoli Busnes a sicrwydd a roddwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ogystal â sylwadau archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i’r adolygiad hwn, ac maent wedi’u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, rhoddodd yr archwiliad mewnol sicrwydd sylweddol ynghylch fy systemau rheolaeth fewnol ac ni chododd unrhyw argymhellion.

Drwy gydol 2020-21, es ati i adolygu, mireinio a monitro risgiau ein rhaglen waith a’n rhaglen strategol yn unol â’m strategaeth rheoli risg.

## Barn y Comisiynydd ar y Datganiad Llywodraethu

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn ac, yn fy marn i, mae’r gweithdrefnau a’r strwythurau rheoli mewnol a llywodraethu cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a’m blaenoriaethau ac wedi gweithio’n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi’r ddogfen hon.

Mae’r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau’r Trysorlys.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

22 Gorffennaf 2021

# Adroddiad ar staff a thaliadau

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Rwy'n gymwys ac wedi ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Fi sy'n pennu cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Cynhaliwyd yr ymarfer gwerthuso swyddi diwethaf gan sefydliad Adnoddau Dynol allanol yn 2017-18, a aeth ati i asesu disgrifiadau swydd gweithwyr a meincnodi rolau o'r un band yn erbyn ei gilydd i sicrhau tegwch a chydraddoldeb o fewn fy strwythur sefydliadol. Gwerthusir rolau newydd sy'n cael eu nodi a'u hymgorffori yn fy strwythur sefydliadol gan ddefnyddio'r un dechneg feincnodi i sicrhau eu bod yn cael eu graddio'n briodol.

Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau.

Wrth benderfynu a ddylid dyfarnu tâl i staff, rwy'n ystyried fforddiadwyedd o fewn fy nghyllideb fy hun, chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, dyfarnwyd cynnydd chwyddiannol o 2% mewn dyfarniadau cyflog byw yn 2020-21 (dyfarnwyd 1% yn 2019-20).

## Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gennyf i. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfnod o bedair blynedd yn y swydd sy'n dod i ben ar 20 Awst 2022; gallaf gael fy ailbenodi unwaith ar gyfer y swydd hon. Oni nodir yn wahanol, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliad ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

(Amodol ar archwiliad)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion fy staff uwch a'm buddion pensiwn a thaliadau.

## Cyfanswm unigol y taliad

(Amodol ar archwiliad)

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | | **Buddion Pensiwn[1]** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21 £000** | **2019-20 £000** | **2020-21 £000** | **2019-20 £000** | **2020-21 £000** | **2019-20 £000** |
| Heléna Herklots<br>Comisiynydd | 90-95 | 90-95 | 35 | 35 | 125-130 | 125-130 |
| Kelly Davies<br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 65-70 | 60-65 | 26 | 25 | 90-95 | 85-90 |
| Katie Holliday<br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 45-50 | 40-45 | 26 | 20 | 70-75 | 60-65 |

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) yn ogystal â'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn..

## Buddion Pensiwn

**(Amodol ar archwiliad)**

| | **Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/21** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ôl oedran pensiwn** | **CETV ar 31/03/21** | **CETV ar 31/03/20** | **Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Heléna Herklots<br>Comisiynydd | 5-10 | 0-2.5 | 76 | 46 | 22 |
| Kelly Davies<br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 10-15 | 0-2.5 | 133 | 113 | 10 |
| Katie Holliday<br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 10-15 | 0-2.5 | 144 | 126 | 12 |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil o 1 Ebrill 2015 ymlaen – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion yn ôl cyfartaledd gyrfa gyda phensiwn oed arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw hwnnw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, roedd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rheini sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfrannu at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: mae tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd pobl oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o gyrraedd oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Gan fod y llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu fel y nodwyd gan y llysoedd o ran y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir maes o law, i aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i wahanol fudd-daliadau pensiwn yng nghyswllt y cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn). Mae'r buddion sydd gan yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn PCSPS yn cael eu 'bancio', gyda buddion y rheini sydd â buddion blaenorol yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sydd wedi ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alffa. Mae'r buddion o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Gyda'r cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae Clasurol a Mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premiwm. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn alpha, mae buddion yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ond bod y pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.



Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r ymddiriedolaeth Meistr Cyfreithiol a Chyffredinol. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth ddal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oed hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm a clasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau'r cynllun nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn sydd wedi'u nodi ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn PCSPS neu alpha - fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur sydd wedi'i nodi yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer ei bod yn bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw'n daladwy o oedran gwahanol).

I gael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ewch i'r wefan, sef :

www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i gymar. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod

# Adroddiad Staff

**(Amodol ar archwiliad)**

Mae costau staff yn cynnwys:

| | | 2020-21 | | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Staff Parhaol** | **Staff Wrth Gefn** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 692 | 117 | 809 | 782 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 71 | 12 | 83 | 73 |
| Costau Pensiwn Eraill | 183 | 25 | 208 | 210 |
| **Cyfanswm costau net** | **946** | **154** | **1,100** | **1,065** |

O fewn costau staff, mae £12,300 (2019-20: £8,700) sy'n berthnasol i dalu pedwar aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod 2019-20 roedd fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys pedwar aelod.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "alpha" yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei chyfran hi o'r asedau a'r dyledion.

Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yma.

Ar gyfer 2020-21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £194,000 yn daladwy i'r PCSPS (2019-20: £204,000) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2020-21 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn codi pensiwn.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth: pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniad cyflogwr gwerth £13,300 i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £400, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £dim (2019,20 £1,000). Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl ar dudalen 63.

# Nifer y Staff

(Amodol ar archwiliad)

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | **2020-21** | **2019-20** |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 16.54 | 16.66 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 3.75 | 3.94 |
| **Cyfanswm** | **20.29** | **20.60** |

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, roedd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn oedd wedi cael eu cyflogi gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2021** | **31 Mawrth 2020** |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 15.64 | 15.51 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 3.00 | 3.94 |
| **Cyfanswm** | **18.64** | **19.45** |

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

# Datgeliad Cyflog Teg

(Amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r taliad cyfan yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

| | **2020-21 Cyflog** | **2019-20 Cyflog** |
|---|---|---|
| Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) | £90,000-£95,000 | £90,000-£95,000 |
| Taliad cyfan canolrifol | £35,904 | £33,600 |
| Cymhareb | 2.57 | 2.75 |

Roedd tâl band y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2020-21 (2019-20: £90,000 – £95,000). Roedd hwn 2.57 gwaith yn fwy (2019-20: 2.75) na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £35,904 (2019-20: £33,600). Mae'r gymhareb wedi lleihau

ychydig bach oherwydd mae'r taliadau cydnabyddiaeth cyffredinol i staff wedi cynyddu ar raddfa gyflymach na thaliad cydnabyddiaeth y Comisiynydd.

Yn 2020-21, ni chafodd yr un cyflogai (2019-20: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £23,256 i £90,000 (2019-20: £21,800 i £90,000).

## Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr.

| | 31 Mawrth 2021 | | 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw |
| Cyfanswm canolrifol | £17.81 | £19.63 | £17.46 | £17.55 |
| Cyfanswm cymedrig | £21.55 | £18.34 | £20.66 | £17.38 |

## Ystadegau oedran y gweithlu

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Cyfrif pennau yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2021

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 & over | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3 | 10 | 2 | 3 | 0 | 0 |

## Trosiant staff

(ddim yn amodol ar archwiliad)

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Staff | 3 | 1 | 2 | 5 | 3 |
| Trosiant | 15.46% | 4.65% | 10.04% | 24.27% | 15.51% |

Mae maint fy sefydliad ac felly maint y sampl sydd ar gael yn addasu'r gwerthoedd trosiant o fewn y tabl uchod, gan fod un person sy'n gadael y sefydliad yn cynrychioli trosiant o 5%.

Mae dadansoddiad pellach o ffigurau trosiant staff yn dangos dros gyfnod o bum mlynedd, o'r 14 aelod o staff a adawodd y sefydliad bod dau ymddeoliad, pedwar contract mamolaeth cyfnod penodol ac wyth ymddiswyddiad.

.

Roedd cyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (Ddim yn amodol ar archwiliad):

**Staff yn ôl rhyw 2019/20**





**Staff yn ôl rhyw 2020/21**








Yn y delweddau uchod, fe nodir y dadansoddiad o'r rhywiau a chyflogau mewn gwir niferoedd, ac maent yn dangos mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu ac mai ychydig o newid sydd wedi bod yng nghyfansoddiad y staff rhwng 2019-20 a 2020-21.



## Absenoldeb oherwydd salwch

Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch gyfartalog fesul aelod o staff oedd 8.19 diwrnod (4.04 diwrnod yn 2019-20). Yn 2020-21, roedd y gyfradd yn uwch nag yr hoffem iddi fod ac roedd hynny oherwydd bod nifer bach o staff ar absenoldeb salwch tymor hir. Pe bai'r absenoldebau tymor hir, sef rhai sy'n hwy na phedair wythnos, yn cael eu tynnu o'r cyfraddau absenoldeb salwch cyfartalog, 1.53 diwrnod fyddai'r gyfradd ar gyfer 2020-21. Mae'r lefelau salwch tymor byr yn ystod 2020-21 wedi bod yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd y cyfyngiadau symud a osodwyd gan y Llywodraeth a'r safonau hylendid gwell, megis gwisgo masgiau a hylendid dwylo, wedi'i orfodi gan bandemig Covid-19.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i gefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn ac i wneud ymdrech i ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth y mae'r sefydliad yn ei wneud. Rwyf wedi ymroi i gyfle cyfartal ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Rwyf yn sylweddoli bod gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol ac rwyf wedi ymroi i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb. Rwyf wedi ymroi i sicrhau amgylchedd gweithio sy'n rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu a gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn cael ei drin yn deg, gyda pharch ac urddas.

Rwyf wedi ymroi i roi cyfleoedd cyfartal i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi gennyf ar hyn o bryd ac unrhyw ddarpar ymgeiswyr. Ni fydd unrhyw aelod o staff nac unrhyw ymgeisydd am swydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred, anabledd, oed, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, nac unrhyw ystyriaeth berthnasol arall, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn.

## Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddem yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras, Braille neu'n electronig. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn yr iaith o'u dewis.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, ac ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch hefyd.

## Effaith Covid-19 ar arferion gweithio cyflogeion

Wrth i effaith bosibl pandemig Covid-19 ddod i'r amlwg drwy gydol mis Chwefror 2020, ymgysylltais yn helaeth â staff ynghylch y newidiadau posibl i arferion gwaith. Penderfynais gau'r swyddfa ar 17 Mawrth ac i'r holl staff weithio gartref nes y clywir yn wahanol. Oherwydd y pwysau a'r ansicrwydd digynsail yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd gwybod i'r staff nad oedd yn ofynnol iddynt weithio eu horiau contract os nad oeddent yn gallu gwneud hynny. I ddechrau, fe wnaeth hyn alluogi staff i addasu i'w trefniadau gweithio newydd a'u helpu nhw i gael cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith mewn pandemig byd-eang. Roedd yn ofynnol i'r staff gofnodi eu horiau gwaith, fel bod cofnod o oriau gwaith gwirioneddol yn cael ei gadw.

Ailgyflwynwyd oriau contract gweithio ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, ac eithrio'r rhai â chyfrifoldebau gofal plant, ar 1 Gorffennaf. I gydnabod yr amgylchiadau ar gyfer yr aelodau staff hynny sydd â chyfrifoldebau gofal plant, ailgyflwynwyd trefniadau gweithio hyblyg ar 20 Gorffennaf, y dyddiad y byddai'r ysgolion fel arfer yn cau ar gyfer gwyliau'r haf.

Yn dilyn y newyddion am yr ail gyfyngiadau symud cenedlaethol ac i gydnabod y cymorth dysgu cartref ychwanegol sydd ei angen ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Rhoddais gymorth ychwanegol i'r aelodau staff hynny oedd â phlant yn y Cyfnod Sylfaen, unwaith eto drwy beidio â'i gwneud yn ofynnol iddynt weithio eu horiau contract o 11 Ionawr ymlaen. Roedd y cytundeb hwn ar waith nes i ysgolion ailagor ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar 22 Chwefror 2021.

Er mwyn cefnogi staff oedd ag amgylchiadau eithriadol, cynyddwyd absenoldeb arbennig i 15 diwrnod o absenoldeb â thâl ar gyfer materion cysylltiedig â Covid-19 yn ystod 2020/21. Os nad oedd staff yn gallu gweithio eu horiau contract, roeddent yn gallu gwneud cais am absenoldeb arbennig â thâl, a/neu ddefnyddio gwyliau blynyddol, i wneud iawn am y diffyg.

Yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymgysylltu'n llawn a bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, o 20 Mawrth 2020 rwyf wedi cynnal cyfarfodydd tîm ddwywaith yr wythnos i'w diweddaru ar faterion gweithredol megis cynllunio gwaith a newidiadau Adnoddau Dynol, i rannu a thrafod effeithiau'r pandemig ar bobl hŷn a'r camau yr oedd angen i ni eu cymryd, yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau. Caiff sesiynau 'galw am sgwrs' eu cynnal bob wythnos hefyd, sy'n rhoi cyfle i staff rannu eu profiadau a helpu i reoli eu llesiant.

Mae'r holl staff wedi cynnal hunanasesiad DSE o'u hardal waith gartref ac rydw i wedi mynd ar drywydd unrhyw broblemau a nodwyd i sicrhau bod ganddynt yr offer angenrheidiol i allu gweithio'n effeithiol gartref.

Mae'r adborth ar y cymorth rydw i wedi'i ddarparu i staff yn ystod y cyfnod eithriadol hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi cael ei groesawu.

## Ymgysylltu â Gweithwyr

Rwy'n ymgysylltu â'r holl staff ac maen nhw'n cael y cyfle i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd gweithio a dylanwadu arnynt. Rhoddir polisïau newydd gerbron y staff er mwyn cael adborth arnynt ar ôl iddynt gael eu llunio.

Mae'r polisïau ar gyfer gweithwyr yn cael eu hadolygu bob blwyddyn neu bob dwy flynedd, fel y bo hynny'n briodol. Caiff unrhyw bolisïau sydd â newidiadau sylweddol eu dosbarthu i'r holl staff er gwybodaeth a sylwadau, neu fel arall caiff y polisi ei gadw'n ganolog ar fy rhwydwaith TG i'r holl staff ei ddefnyddio. Mae pob polisi yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar gydraddoldeb pan gaiff ei gyflwyno neu os gwneir newidiadau sylweddol iddo.

## Buddion i weithwyr

Rwyf hefyd yn helpu gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg a rhoi cyfleoedd i weithwyr gael patrymau gwaith hyblyg.

Yn dilyn ailasesiad ym mis Mai 2018, daliodd

y sefydliad ei afael yng Ngwobr Aur Iechyd y Gweithle Bach, sy'n ddilys am dair blynedd. Mae Gwobr Aur Iechyd y Gweithle Bach yn cyfrannu at fy nghydnabod fel cyflogwr rhagorol ac yn galluogi staff i berfformio i'r lefel uchaf bosibl.

Rwyf wedi parhau i sicrhau bod rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn cael ei chyflwyno drwy gydol y flwyddyn i'r holl staff.

Yn ystod 2020-21, iechyd meddwl a llesiant oedd y brif flaenoriaeth wrth gefnogi staff i drosglwyddo i weithio gartref ac ymdopi mewn pandemig. Cyflwynwyd nifer o weithdai gan weithwyr proffesiynol allanol yn canolbwyntio ar bwysigrwydd iechyd meddwl, gan roi technegau i'm staff i'w cefnogi gydag effaith y pandemig ar iechyd meddwl.

Yn ystod 2020-21, fe wnes i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad.

Mae gennyf Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion megis Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gost byw yn y Deyrnas Unedig.

Does dim achos wedi bod lle bu'n rhaid i mi negodi ag undeb llafur ar ran staff ac nid wyf wedi cael fy hysbysu bod unrhyw weithwyr yn aelodau o undeb llafur ar hyn o bryd.

## Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres

Nid oedd unrhyw gyflogiadau heb fod ar y gyflogres yn ystod 2020-21; (dim, 2019-20.)

## Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Ni chafwyd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2020-21; (dim, 2019-20)

## Iawndal am Golli Swydd

(Subject to audit)

Ni wnaethpwyd taliadau iawndal yn 2020-21; (dim, 2019-20)

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

22 Gorffennaf 2021



# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a rhannau o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a archwilir, ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.
Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Oherwydd nad yw deddfwriaeth na chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y wybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol (y tu hwnt i'r datganiadau ariannol) wedi eu paratoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y gwybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn Natganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Gweinidogion Cymru a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd

i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a thwyll trwy wrth-wneud rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**23 July 2021**

Archwilio Cymru // 24 Heol y Gadeirlan // Caerdydd, CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.



# Datganiadau Ariannol



# Datganiadau Ariannol

## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020-21<br>£ 000 | 2019-20<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,100 | 1,043 |
| Gwariant Gweithredol Arall | 3 | 347 | 462 |
| Dibrisiant / Amorteiddiad | 3 | 12 | 13 |
| Darpariaeth ar gyfer prydlesu | 3 | 11 | 0 |
| Cyfanswm y Gwariant Gweithredol | | 1,470 | 1,540 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,470** | **1,540** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus ac nid oes enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2019-20 na 2020-21.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Note | 31 Mawrth 2021<br>£ 000 | 31 Mawrth 2021<br>£ 000 | 31 Mawrth 2020<br>£ 000 | 31 Mawrth 2020<br>£ 000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Offer cyfrifiadurol | **4** | 7 | | 11 | |
| Offer swyddfa | **4** | 9 | | 12 | |
| Gwelliannau prydles | **4** | 2 | | 3 | |
| Asedau anniriaethol | **5** | 3 | | 7 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | 21 | | 33 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **6** | 54 | | 53 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | **7** | 398 | | 363 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 452 | | 416 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 473 | | 449 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **8** | (72) | | (70) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | (72) | | (70) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | | 401 | | 379 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **9** | (89) | | (78) | |
| Deferred creditor | **10** | (0) | | (1) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (89) | | (79) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **312** | | **300** |
| Ecwiti trethdalwyr | | | 312 | | 300 |
| **Cronfa wrth gefn gyffredinol** | | | **312** | | **300** |

**Heléna Herklots CBE**
**Older People's Commissioner for Wales**
**22 Gorffennaf 2021**

## Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 31 Mawrth 2021 £ 000 | 31 Mawrth 2020 £ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | (1,470) | (1,518) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | **3** | 23 | 14 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **6** | (1) | 1 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **8** | 2 | (26) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn Credydwr gohiriedig | **10** | (1) | (1) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,447)** | **(1,530)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **4** | 0 | (14) |
| Prynu asedau anniriaethol | **5** | 0 | (1) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **0** | **(15)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,482 | 1,608 |
| **Cyllid net** | | **1,482** | **1,608** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod** | | **35** | **63** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **7** | **363** | **300** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **7** | **398** | **363** |



## Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021 £000** | **1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 £000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 300 | 232 |
| Gwariant net | (1,470) | (1,540) |
| Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig | 1,170 | (1,308) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,482 | 1608 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **312** | **300** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM 2020-21. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw ased gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

### 1.2 Asedau Anghyfredol

Yn ystod 2020-21, mae polisi Asedau Anghyfredol y Comisiynydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn parhau i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a pherthnasol. Rhoddwyd polisi'r Comisiynydd ar waith yn 2008 ac oherwydd chwyddiant a ffactorau eraill, mae cost prynu asedau wedi cynyddu. Felly, mae'r newid yn y trothwy i £5,000 yn adlewyrchiad sy'n fwy cywir o gost asedau gwerth uwch sydd wedi eu cyfalafu. Mae oes yr ased wedi cynyddu i adlewyrchu'r gwarantau hirach a roddwyd gydag asedau gwerth uwch.

Mae'r adolygiad hwn wedi cael yr effaith ganlynol ar y polisi Asedau Anghyfredol:

- Mae'r trothwy cyfalafu asedau anghyfredol wedi'i gynyddu i £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adfer o £1,000.
- Mae'r oes economaidd ddefnyddiol ar gyfer yr holl asedau nad ydynt yn rhai cyfredol bellach yn 5 mlynedd. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r newid i bolisi.

| | Oes Economaidd Ddefnyddiol hyd at 31 Mawrth 2020 | Oes Economaidd Ddefnyddiol o 1 Ebrill 2020 |
|---|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd at uchafswm o 5 mlynedd | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd at uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 flynedd | 5 flynedd |
| Offer TG | 4 flynedd | 5 flynedd |
| Asedau anniriaethol | 4 flynedd | 5 flynedd |

Nid yw'r newid mewn polisi cyfrifyddu wedi'i gymhwyso'n wrth edrych yn ôl, ac nid yw'r balansau agoriadol wedi'u haddasu, gan nad yw effaith y newid polisi ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd yn berthnasol.

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbrisio yn amherthnasol.

Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i'r Comisiynydd.

### 1.3 Asedau Anghyfredol Diriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles.

Nid yw asedau anghyfredol diriaethol wedi'u hailbrisio oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai'r symiau dan sylw'n berthnasol.

### 1.4 Asedau Anghyfredol Anniriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol anniriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pum mlynedd fel arfer).

### 1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad

Darperir Dibrisiant / amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif. Caiff dibrisiant ei ddarparu o'r dyddiad mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

## 1.6 Incwm, cyllid a gwariant

Daw prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

## 1.7 Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn galluogi'r Comisiynydd i reoli risg yn effeithiol a sicrhau parhad busnes, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei dyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

## 1.8 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

## 1.9 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n gynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil: http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

## 1.10 Tâl Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

Mae darpariaeth dadfeiliadau'r Comisiynydd yn cynrychioli amcan o'r costau y bydd y Comisiynydd yn eu hwynebu er mwyn talu am ei heiddo ar brydles ar ddiwedd y brydles. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddarparu gan ddefnyddio amcan o gostau gan gontractwr lleol.

## 1.12 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 1.13 Buddion Cyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogeion presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth.

## 1.14 Safonau cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi, ddim ar waith eto:

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae mewn grym ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny. Bydd y safon gyfrifyddu hon yn berthnasol o 2022-23 ymlaen ac nid oes modd ei amcangyfrif yn rhesymol ar hyn o bryd.

Mae'r weithred o roi'r safon hwn ar waith wedi cael ei gohirio ar gyfer 2021-22 oherwydd Covid-19.

Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon prydlesi presennol IAS 17 a bydd angen i'r lesddeiliad gydnabod asedau ac atebolrwydd am brydlesi â thymor hwy na 12 mis oni bai fod gwerth yr ased sylfaenol yn isel. Bydd angen i lesddeiliad gydnabod ased hawl-i-ddefnyddio gan gynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol a brydlesir ac atebolrwydd prydlesu sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles. O ganlyniad i hyn, mae lesddeiliad hefyd yn cydnabod bod yr ased hawl-i-ddefnyddio yn dibrisio a bod llog ar yr atebolrwydd prydlesu, yn ogystal â dosbarthu ad-daliadau arian parod yr atebolrwydd prydlesu i mewn i brif gyfran a chyfran llog. Mae hwn yn newid sylweddol yn y broses gyfrifyddu ar gyfer prydlesi a bydd yn cael effaith wirioneddol ar Ddatganiadau Ariannol cyfrifon y Comisiynydd.

Ym mis Mai 2017, cyhoeddwyd IFRS 17 - contractau yswiriant, a bydd mewn grym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023. Bydd y safon cyfrifyddu hon yn weithredol o 2023-24 ac ni ragwelir y bydd ei oblygiadau'n effeithio ar Ddatganiadau Ariannol y Comisiynydd.

## 2. Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2020-21 | | | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Staff Parhaol | Staff Wrth Gefn | Cyfanswm costau staff | Cyfanswm costau staff |
| Cyflogau | 692 | 117 | 809 | 782 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 71 | 12 | 83 | 73 |
| Costau Pensiwn Eraill | 183 | 25 | 208 | 210 |
| **Cyfanswm y costau** | **946** | **154** | **1,100** | **1,065** |

Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Taliadau a Staff ar dudalen 66.

## 3. Gwariant Gweithredol Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

| | Nodyn | 2020-21 £000 | 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | | 71 | 71 |
| Costau eraill o ran llety | | 67 | 78 |
| Technoleg gwybodaeth | | 58 | 59 |
| Ffioedd proffesiynol | | 47 | 43 |
| Hyfforddiant a datblygu | | 5 | 15 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 6 | 11 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol | | 8 | 7 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol | | 14 | 14 |
| Rhaglenni Penodol | | 46 | 112 |
| Costau gweinyddol eraill | | 25 | 52 |
| | | **347** | **462** |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant | 4 | 10 | 8 |
| Amorteiddiad | 5 | 8 | 5 |
| Darpariaeth | 9 | 11 | 0 |
| | | **23** | **13** |
| **Cyfanswm** | | **370** | **475** |

### Rhaglenni Penodol

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o wariant rhaglen waith y Comisiynydd yn ystod dwy flynedd gyntaf ei chynllun strategol newydd, 'Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo'. Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

| **Maes blaenoriaeth strategol** | **2020-21 £000** | **2019-20 £000** |
|---|---|---|
| Rhoi Diwedd ar Oedraniaeth a Gwahaniaethu ar Sail Oedran | 1 | 34 |
| Atal Cam-drin Pobl Hŷn | 23 | 17 |
| Galluogi pawb i Heneiddio'n Dda | 22 | 47 |
| Cyflwr y Genedl | 0 | 14 |
| **Cyfanswm** | **46** | **112** |

Mae gwariant ar feysydd rhaglenni traddodiadol yn ystod 2020-21 wedi bod yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Y rheswm am hyn yw bod pandemig COVID-19 wedi symud ffocws gwaith y Comisiynydd oddi wrth waith ymchwil a chyhoeddi a hyrwyddo canfyddiadau ac arweiniad i weithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid allweddol a dylanwadu arnynt a chraffu ar eu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r newid ffocws hwn wedi arwain at ostyngiad mewn meysydd gwariant traddodiadol megis comisiynu ymchwil; costau uniongyrchol megis teithio, cyfieithu, argraffu a dosbarthu; a chostau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau lle mae'r Comisiynydd yn ymgysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Ar gyfer 2021-22 ac ymlaen mae'r Comisiynydd wedi datblygu cynllun busnes 18 mis lle rhagwelir y bydd yn dychwelyd i lefelau gwariant rhaglenni hanesyddol.

## 4. Asedau Anghyfredol Diriaethol

| | Offer Cyfrifiadurol | Offer Swyddfa | Gwelliannau Prydles | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **35** | **32** | **279** | **346** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **35** | **32** | **279** | **346** |
| Dibrisiant ac Amhariad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **24** | **20** | **276** | **320** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 4 | 3 | 1 | 8 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **28** | **23** | **277** | **328** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021** | **7** | **9** | **2** | **18** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020 | 11 | 12 | 3 | 26 |

Cafodd y polisi asedau nad yw'n gyfredol ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2020-21. Mae oes economaidd ddefnyddiol ased bellach wedi'i bennu ar 5 mlynedd ac mae'r trothwy cyfalafu bellach yn £5,000.

Mae effaith y newid hwn ar werthoedd llyfr net asedau diriaethol nad ydynt yn rhai cyfredol yn fach iawn. Petai'r polisi cyfrifyddu newydd yn cael ei weithredu wrth edrych yn ôl, gwerth llyfr net asedau diriaethol anghyfredol ar 31 Mawrth 2021 fyddai £8,000 yn hytrach na £18,000. Felly, nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod effaith y newid mewn polisi cyfrifyddu yn berthnasol ac nid yw'r balansau agoriadol wedi'u haddasu.

Ni amharwyd ar asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.



## 5. Asedau anghyfredol anniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cost neu brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 46 | 68 | 114 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **46** | **68** | **114** |
| Amorteiddiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 46 | 61 | 107 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 4 | 4 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **46** | **65** | **111** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021** | **0** | **3** | **3** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020 | 0 | 7 | 7 |

Cafodd y polisi asedau nad yw'n gyfredol ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2020-21. Mae oes economaidd ddefnyddiol ased bellach wedi'i bennu ar 5 mlynedd ac mae'r trothwy cyfalafu bellach yn £5,000.

Mae effaith y newid hwn ar werthoedd llyfr net asedau anniriaethol nad ydynt yn rllai na £1,000. Felly, nid yw effaith y newid mewn polisi cyfrifyddu yn berthnasol, nid yw'r polisi wedi'i weithredu wrth edrych yn ôl ac nid yw'r balansau agoriadol wedi'u haddasu.

## 6. Symiau masnach derbyniadwy

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 54 | 53 |
| | **54** | **53** |

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel cyfraddau neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan mae'r buddiant yn cael ei dderbyn.

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 7. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2020-21<br>£000 | 2019-20<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 363 | 300 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 35 | 63 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **398** | **363** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 188 | 7 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 210 | 356 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **398** | **363** |

## 8. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2021<br>£000 | 31 Mawrth 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau masnach taladwy | 2 | 9 |
| Croniadau | 70 | 61 |
| | **72** | **70** |

## 9. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 31 Mawrth 2021<br>£000 | 31 Mawrth 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 78 | 78 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 11 | 0 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **89** | **78** |

Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r tâl dadfeilio am y swyddfa yn ystod cyfnod y brydles ac am derfynu'r brydles.

Yn unol ag IAS 37, caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu bob blwyddyn.

## 10. Credydwr gohiriedig

| | 31 Mawrth 2021<br>£000 | 31 Mawrth 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 1 | 4 |
| Gwariant cronedig yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 |
| Rhyddhawyd i Gyfrif Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn | (1) | (3) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **0** | **1** |

Mae gan y Comisiynydd brydles weithredu o bum mlynedd yng nghyswllt swyddfeydd, sy'n cynnwys rhent amrywiol dros oes y brydles, a thoriad heb effaith ym mlwyddyn tri ym mis Awst 2021. Cofnodir costau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles yn unol ag IAS 17. Bydd y credydwr gohiriedig yn rhyddhau'n llwyr yn nhrydedd flwyddyn y brydles.

## 11. Ymrwymiadau dan brydlesi

### Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 31 Mawrth 2021<br>£000 | 31 Mawrth 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 69 | 69 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na pum mlynedd | 94 | 25 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 0 | 0 |
| | **163** | **94** |

Mae'r Comisiynydd yn prydlesu un swyddfa ym Mae Caerdydd. Cytunwyd ar y brydles am gyfnod o bum mlynedd o 5 Awst 2018 gyda dewis i ddod â'r brydles yn y drydedd flwyddyn (Awst 2021).

Cyn y pandemig, rhagwelwyd y byddai'r Comisiynydd yn gweithredu'r cymal torri prydles yn 2021, a adlewyrchir o fewn rhwymedigaethau 31 Mawrth 2020. Gan nad oedd y Comisiynydd yn gallu rhagweld ei gofynion o ran swyddfa yn y dyfodol, penderfynwyd peidio ag ysgogi'r cymal terfynu ac mae'n dal wedi ymrwymo i'r brydles tan fis Awst 2023.

Pennwyd y rhent taladwy ar gyfer tair blynedd gyntaf y cyfnod, gyda rhent taladwy blynyddoedd pedwar a phump i'w gytuno yn ystod 2021-22. Gan nad oedd y cymal terfynu wedi'i ysgogi, bydd gwerth y brydles estynedig yn cael ei adolygu yn unol â gwerth y farchnad agored yn dilyn arolygiad gan syrfëwr annibynnol.

Mae Trysorlys EM wedi cadarnhau'n ddiweddar na fydd yr IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 yn dod i rym tan 1 Ebrill 2022. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i bob prydles sydd â chyfnod prydlesu hwy na 12 gael ei chydnabod fel asedau ac atebolrwydd yn y datganiadau ariannol.

## 12. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliadau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg a fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfradd llog na risg o ran arian cyfred tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg atebolrwyddau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2021.

## 13. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2019-20: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2019-20: dim).

## 14. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn (2019-20: dim).

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2020-21 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,482,000 gan Lywodraeth Cymru (2019-20: £1,608,000).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2020-21 ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Busnes Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

## 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan Heléna Herklots CBE ar 22 Gorffennaf 2021.